

Cyngor Bro Morgannwg

Gwasanaethau
Cymdeithasol:
Adroddiad Blynyddol y
Cyfarwyddwr
2022-2023

Rhagair

Fel Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Bro Morgannwg, mae'n bleser gennyf gyflwyno ein Hadroddiad Blynyddol ar gyfer 2022-23.

Mae'r adroddiad wedi'i lunio o amgylch y chwe safon lles, fel y'u diffinnir gan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae'r adroddiad yn rhoi manylion y cynnydd sydd wedi'i wneud yn erbyn pob un o'r blaenoriaethau y dywedasom y byddem yn canolbwyntio arnynt dros y 12 mis diwethaf. Mae'r cynnydd a'r datblygiadau a amlinellir yn yr adroddiad yn cyd-fynd yn agos â Chynllun Corfforaethol y Cyngor ar gyfer 2020-25 a'r Cynllun Cyflawni Blynyddol cysylltiedig ar gyfer 2022-23 a thu hwnt.

O dan bob safon lles mae'r adroddiad yn nodi'r blaenoriaethau allweddol ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod. Ni chafodd y broses o nodi blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn nesaf ei gwneud ar ei phen ei hun ond roedd yn rhan o broses llawer mwy cyfannol ac integredig sy'n cyd-fynd yn agos â'n hymgyngoriad cyhoeddus ar y Cynllun Cyflawni Blynyddol. Mae'r blaenoriaethau/camau gweithredu a nodir yn y Cynllun Cyflawni Blynyddol wedi'u llunio gan lais ein dinasyddion ac mae'n parhau'n ddogfen gynllunio allweddol a ddefnyddiwyd gennym eleni i gefnogi'r gwaith o nodi blaenoriaethau ar gyfer y Gwasanaethau Cymdeithasol yn y flwyddyn i ddod.

Mae'r flwyddyn ddiwethaf wedi bod yn un o'r blynyddoedd mwyaf heriol y mae'r Gwasanaethau Cymdeithasol wedi'u profi erioed a dywedais yr un fath am y flwyddyn flaenorol. Mae gwaddol y cyfnodau clo a'r pandemig, ynghyd ag argyfwng costau byw, yn arwain at gynnydd yn y galw. Mae hyn mewn cyd-destun o heriau staffio parhaus.

Er ein bod yn rhagweld y bydd yr heriau'n parhau am flynyddoedd i ddod, rydym yn esblygu ac yn addasu ein hymateb i'r tirwedd ansicr, sy'n newid yn gyflym. Mae ein dull gweithredu wedi'i ddiffinio gan ein gallu i ysgogi ein gweithlu yn gyflym i weithio mewn ffyrdd newydd. Byddai hyn wedi bod yn amhosibl ei gyflawni heb eu hymroddiad a'u gwydnwch nhw. Trwy weithio gyda'n partneriaid, ein cymunedau a'n dinasyddion, rydym wedi gallu gwneud y defnydd gorau posibl o'n hymdrechion a helpu'r rhai sydd mewn angen. Mae arnom ddyled i bawb sydd angen ac yn defnyddio ein gwasanaethau i'w gwneud yn ymatebol ac ar gael iddynt mewn ffordd amserol.

Mae sawl cyflawniad dros y flwyddyn ddiwethaf yr ydym yn falch o'u dathlu (fel yr amlinellir yn yr adroddiad hwn). Drwy gydol y flwyddyn heriol hon rydym wedi parhau i gadw at ein nodau strategol, ac rwy'n falch o weld cynnydd gwirioneddol o ran cynyddu'r rheolaeth sydd gan ddefnyddwyr ein gwasanaeth dros eu gofal a'u cymorth, a'n camau tuag at fodolau sy'n fwy seiliedig ar gryfderau.

Hoffwn ddiolch i'r holl aelodau o staff hynny a'n partneriaid am y rôl hanfodol y maent yn ei chwarae wrth roi gofal a chymorth o ansawdd uchel i ddinasyddion Bro Morgannwg.



1 - Preswylwyr cartref gofal yn mwynhau adloniant.

Crynodeb y Cyfarwyddwr o Berfformiad

Crynodeb o Berfformiad



Rydym wedi parhau i gasglu amrywiaeth o fesurau perfformiad ar draws tair adran (Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc, Gwasanaethau Oedolion, a Rheoli Adnoddau a Diogelu) sy'n ffurfio'r Gyfarwyddiaeth. Mae'r gwaith hwn o gasglu data perfformiad ac adrodd arno, ynghyd â gwybodaeth rheoli arall, yn cael ei wneud trwy System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru (SWGCC). Mae casglu cyfres o fesurau perfformiad yn rhoi cipolwg i ni o'n perfformiad dros y flwyddyn ddiwethaf.

Ym mis Ionawr 2023 cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Cymru Arolygiad Gwerthuso Perfformiad o'r Gwasanaethau Cymdeithasol. Roedd eu hasesiad a'u hadroddiad yn gadarnhaol yn bennaf, sy'n glod gwirioneddol i'n staff gweithgar. Nid yw adroddiad da yn golygu bod y gwaith rydym yn ei wneud yn hawdd neu nad oes unrhyw faterion i ni fynd i'r afael â nhw. Mae'r Gwasanaethau

Cymdeithasol yn y Fro yn wynebu nifer o heriau, sy'n cael eu hadlewyrchu ledled Cymru, megis anawsterau o ran digonolrwydd gofal cartref ac ymateb yn gyflym.

Yn ystod 2022/23, mae rhai o'n cyflawniadau perfformiad allweddol wedi cynnwys parhau i alluogi plant lle bo'n bosibl i aros gyda theuluoedd neu ddychwelyd gartref at deuluoedd ar ôl cyfnod o ofal a gwella cymorth i alluogi oedolion i fyw'n fwy annibynnol yn eu cartrefi eu hunain. Rydym hefyd wedi parhau i gynnal ymwybyddiaeth dda o'r meysydd perfformiad yr ydym am eu gwella. Yn benodol, mae'r meysydd hyn yn cynnwys prydlondeb asesiadau ac adolygu cynlluniau gofal a chymorth. Er y bu rhywfaint o welliant yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae hwn yn faes yr ydym am barhau i'w wella yn y flwyddyn i ddod. Rydym yn cydnabod bod nifer o heriau a risgiau cysylltiedig yn y dyfodol, ond trwy ein dull cadarn o reoli ein perfformiad rydym mewn sefyllfa gref i ymateb i'r heriau hyn.

Un maes y byddwn yn canolbwyntio arno yw gwella ein gwaith o gofnodi nodweddion gwarchoddedig fel hil, rhyw, oedran, anabledd, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd neu gred i'n helpu i gael dealltwriaeth well o'r amrywiaeth yn ein cymunedau, eu hanghenion, unrhyw wahaniaethau neu anghydraddoldebau wrth ddarparu gofal a chymorth a'n galluogi i asesu a ydym yn diwallu anghenion grwpiau gwahanol a nodi meysydd i'w gwella. Bydd yn ein helpu i ddeall pa rwystrau y mae angen eu dileu i sicrhau cynwysoldeb a sut y gallwn deilwra cymorth a gwasanaethau i ddarparu gofal personol sy'n briodol yn ddiwylliannol gan arwain at ganlyniadau a phrofiadau gwell i unigolion.

Ceir isod rai ffeithluniau sy'n rhoi cipolwg ar ein perfformiad dros y flwyddyn ddiwethaf. Yn ogystal, ystadegau blynyddol cymharol ar gyfer awdurdodau lleol ar wefan [StatsCymru](#) Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, nodwch nad yw'r setiau data hyn sydd ar gael gan StatsCymru yn adlewyrchu data eleni ac felly mae cymharu yn gyfyngedig. Wrth ystyried ein huchafbwyntiau, rydym wedi adolygu'r wybodaeth hon, ein cynnydd ers y llynedd wrth bennu ein huchafbwyntiau perfformiad a'r meysydd i'w gwella.

Cipolwg ar Berfformiad y Gwasanaethau Cymdeithasol UCHAFBWyNTIAU
Cynnydd o 7% yn nifer yr asesiadau newydd a gwblhawyd ar gyfer oedolion yn ystod y flwyddyn.
Cynnydd o 8% yn nifer yr oedolion â chynllun gofal a chymorth ar 31 Mawrth.
Cynnydd o 20% yng nghyfanswm yr oedolion â chynllun gofal a chymorth lle mae anghenion yn cael eu diwallu drwy Daliad Uniongyrchol ar 31 Mawrth
Cynnydd o 10% yn nifer y plant â chynllun gofal a chymorth ar 31 Mawrth
Nifer y plant â chynllun gofal a chymorth lle mae anghenion yn cael eu diwallu drwy Daliad Uniongyrchol ar 31 Mawrth wedi mwy na dyblu

Cipolwg ar Berfformiad y Gwasanaethau Cymdeithasol

MEYSYDD GWELLA

Cynyddu cyfanswm yr ymholiadau amddiffyn oedolion sy'n cael eu cwblhau o fewn 7 diwrnod

Gwella cofnodi nodweddion gwarchodedig oedolion, plant a phobl ifanc

Mae nifer y bobl y gallwn eu cefnogi gyda Gwasanaethau Ailalluogi yn parhau i gynyddu

Parhau i wella amseroldeb asesiadau ac adolygu cynlluniau gofal a chymorth

Ein hymateb i bandemig COVID-19

Dair blynedd yn ddiweddarach, ac mae'r pandemig wedi parhau i lunio a herio'r ffordd yr ydym yn darparu ac yn gweithredu ein gwasanaethau. Gan fod y rhan fwyaf o'n gwasanaethau yn canolbwyntio ar yr unigolyn ac yn dibynnu ar gyswllt wyneb yn wyneb, mae hyn wedi cyflwyno nifer o heriau. Rydym yn parhau i addasu a datblygu ffyrdd newydd o weithio sy'n sicrhau y gallwn weithredu gwasanaethau'n ddiogel i'n dinasyddion a'n staff. Mae wedi herio'r ffordd yr ydym yn cyflawni ein swyddogaethau statudol, yn diogelu'r rhai sydd mewn perygl, tra'n sicrhau ein bod yn parhau i ddiwallu anghenion gofal a chymorth ein holl ddinasyddion. Mae'r pandemig hefyd wedi sbarduno cynnydd yn y galw am wasanaethau gofal cymdeithasol ar adeg pan mae ein capasiti a'n gwasanaethau yn cael eu hymestyn.

Ceir crynodeb o'r ffordd yr ydym wedi ymateb i'r argyfwng trwy'r Tîm Cyfarpar Diogelu Personol a sefydlwyd ar ddechrau'r pandemig. Mae'n tynnu sylw at yr ymdrechion eithriadol y mae staff wedi'u gwneud i gadw ein preswylwyr a'n staff yn ddiogel.



Dros 40 miliwn o eitemau Cyfarpar Diogelu Personol wedi'u dosbarthu ers dechrau'r pandemig	Dros 6 miliwn o eitemau Cyfarpar Diogelu Personol wedi'u dosbarthu dros y flwyddyn ddiwethaf
Ceisiadau ar-lein am Gyfarpar Diogelu Personol PPE a Phecynnau Prawf a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn: <ul style="list-style-type: none"> • 15 gan ysgolion • 181 gan dimau eraill y Cyngor • 414 gan Ddarparwyr Gofal • 214 gan ddefnyddwyr y Cynllun Taliadau Uniongyrchol • 32 gan bartneriaid trydydd sector 	61,124 o brofion wedi'u dosbarthu i'r gweithlu gofal cymdeithasol yn ystod y flwyddyn
	Dosbarthwyd 41,580 o brofion asymptomatig yn ystod y flwyddyn

Mae Gwobrau Gofal Cymru yn ddigwyddiad blynyddol sy'n cael ei gynnal gan Fforwm Gofal Cymru i arddangos arfer gorau ar draws y sector gofal. Cynhaliwyd Gwobrau 2022 ddydd Gwener 21 Hydref 2022 ac enillodd Cyngor Bro Morgannwg Wobr Aur Arwyr Covid am yr Awdurdod Lleol Gorau sy'n Cefnogi Cartrefi Gofal. Fel rhan o'r wobr, derbyniwyd yr anrhydedd canlynol:

"Mae hyn yn anrhydedd gwirioneddol, ac mae'n wych gweld cydnabyddiaeth o'r gwaith caled, y brwdfrydedd, a'r ymrwymiad a ddangoswyd gennych i gyd yn cefnogi ein cydweithwyr ar y rheng flaen. Does dim amheuaeth gen i bod eich gwaith rhagorol wedi helpu i gyfyngu'r peryglon a gyflwynwyd gan y pandemig ac wedi cadw rhai o'r bobl fwyaf agored i niwed yn ein cymunedau yn ddiogel yn ystod y cyfnod anodd a heriol iawn hwn."



Heriau

Ceir crynodeb isod o rai o'r prif heriau y mae'r Gwasanaethau Cymdeithasol wedi mynd i'r afael â nhw dros y flwyddyn ddiwethaf a heriau yr ydym yn debygol o barhau i'w hwynebu yn y dyfodol.

Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc: Trosolwg o heriau'r gwasanaeth

- Mae'r Adran wedi parhau i brofi cynnydd sylweddol yn y galw am ofal a chymorth ar draws pob maes gweithgarwch allweddol, sy'n cael ei adlewyrchu o ran niferoedd a chymhlethdod.
- Yn gysylltiedig â lefelau galw cynyddol, mae nifer y plant sy'n derbyn gofal wedi cynyddu. Mae hyn yn rhoi mwy o bwysau ar ein hadnoddau presennol ac mewn cyd-destun lleoliad, mae'r gwasanaeth wedi dod yn fwy dibynnol ar ofal a brynir yn allanol, yn arbennig lleoliadau asiantaethau maethu annibynnol lle mae argaeledd yn amlwg wedi lleihau hefyd.
- Mewn rhai ardaloedd, mae rhestrau aros ar gyfer gwasanaethau wedi datblygu neu ofyniad i weithredu dulliau amgen ar gyfer darparu gwasanaethau.

Mae ein staff ein hunain wedi cael eu heffeithio'n ddealladwy ac mae lefelau salwch wedi cynyddu am amryw resymau. Mae hyn wedi effeithio ar gapasiti ar draws yr Adran.

Gwasanaethau Oedolion: Trosolwg o heriau'r gwasanaeth

- Rydym yn parhau i nodi'r tueddiad, lle mae pobl sy'n mynd i mewn i wasanaethau statudol yn cyflwyno anghenion mwy cymhleth, gan leihau ein cyfle i ryngweithio yn gynharach a chyfeirio i wasanaethau atal.
- Mae'r flwyddyn ddiwethaf wedi bod yn heriol iawn i bobl sy'n aros yn hirach i gael gofal gartref ac felly, yn aros ar lwyth achosion Gwaith Cymdeithasol am gyfnod hirach, gan roi straen sylweddol ar ofalwyr di-dâl. Rwy'n falch o ddweud bod y sefyllfa hon wedi gwella yn ystod y misoedd diwethaf, ond mae hyn yn parhau i fod yn heriol.
- Mae ein gwasanaeth ailalluogi yn cael ei roi mewn perygl am ei fod yn cael ei ddefnyddio i ddarparu pecynnau gofal i bobl yn y gymuned yn hytrach na chanolbwyntio ar ailalluogi. Mae gan hyn y potensial i olygu nad yw pobl yn cael eu galluogi i fyw mor annibynnol â phosibl a bod pecynnau gofal yn fwy nag y mae angen iddynt fod.
- Mae breuder Gweithwyr Proffesiynol Cymeradwy y Gwasanaeth Iechyd Meddwl yn parhau i fod yn destun pryder. Er ein bod wedi gwneud cynnydd da, gyda chynlluniau mwy cynaliadwy, mae yna freuder o hyd.

- Mae heriau'n gysylltiedig â sicrhau bod y dinasyddion yr ydym yn gweithio gyda nhw yn cael eu cefnogi i fanteisio ar wasanaethau mewn ffyrdd gwahanol, ac i sicrhau bod ganddynt y sgiliau i ddefnyddio ein gwasanaethau trwy gynyddu cynlluniau cynhwysiant digidol.

Gwasanaethau Rheoli Adnoddau a Diogelu: Trosolwg o heriau'r gwasanaeth

- Mae heriau sylweddol yn y farchnad gartref, sy'n cael eu hasesu o ran risg a'u rheoli gan y timau broceriaeth a rheoli achosion. Mae hyn wedi arwain at rai preswylwyr yn aros i becynnau gofal yn y gymuned ddod ar gael i fodloni eu hanghenion. Mae hyn wedi gwella'n ddiweddar ond mae angen gwaith i wella telerau ac amodau gweithwyr gofal i sicrhau ein bod yn denu pobl mewn amgylchedd cyflogaeth gystadleuol.
- Mae recriwtio a chadw mewn swyddi gofal wedi bod yn heriol ers y pandemig ac rydym yn arsylwi cynnydd mewn trosiant staff yn y swyddi hyn. Mae hyn yn ei dro yn creu pwysau ychwanegol ar y staff sy'n weddill.
- Mae pwysau ar ein gallu i sicrhau bod ein gweithdrefnau diogelu yn parhau i fod yn gadarn oherwydd nifer sylweddol cynyddol o atgyfeiriadau diogelu oedolion a nifer cynyddol o blant sy'n dod i dderbyn gofal.
- Mae monitro sicrwydd ansawdd ein darparwyr gwasanaethau a gomisiynir yn allanol yn fwyfwy heriol oherwydd y capasiti a'r adnoddau sydd eu hangen i wneud y gwaith hwn.
- Mae'r amserlenni ar gyfer cydymffurfio â gofynion Trefniadau Diogelu Rhag Colli Rhyddid yn parhau i roi pwysau sylweddol ar yr Adran.

Sut Rydym yn Llunio Ein Gwasanaethau



- Mae ymgysylltu â'n dinasyddion yn hanfodol er mwyn sicrhau ein bod yn deall profiad defnyddwyr y gwasanaeth a gallwn ddefnyddio'r mewnwelediad hwn i wella ansawdd ein gwasanaethau. Mae ymgysylltu yn hanfodol i ddatblygu dull sy'n canolbwyntio'n fwy ar y dinasydd ar gyfer y ffordd yr ydym yn darparu gofal a chymorth. Mae datblygu cyfleoedd hygyrch ac ystyrlon ar gyfer ymgynghori ac ymgysylltu nid yn unig yn gwerthfawrogi barn dinasyddion a'u profiadau ond mae hefyd yn sbardun allweddol ar gyfer gwella. Mae gwella dulliau y gall unigolion eu defnyddio i gael llais nid yn unig yn grymuso ein dinasyddion i gyflawni eu canlyniadau lles eu hunain, ond mae'n hanfodol i drawsnewid ein gwasanaethau.
- Ceir crynodeb isod o'r canfyddiadau allweddol sy'n deillio o'r gwaith hwn.
- Ein nod oedd darparu amrywiaeth o ddulliau i alluogi dinasyddion a'u teuluoedd i gymryd rhan, gan ddefnyddio arolygon (electronig a phapur), cyfweiliadau lled-strwythuredig, galwadau ffôn a grwpiau ffocws.

Gwasanaethau Oedolion

- Yn ystod 2022/23, cynhaliwyd ymgynghoriadau mewn perthynas â Gwasanaethau Adnoddau Cymunedol y Fro (GACF), Gwasanaeth Lleoliadau Oedolion/Rhannu Bywydau, Gwasanaethau Dydd a Thîm Alcohol a Chyffuriau'r Fro (Newlands).
- Ceir amlinelliad isod o'r prif ganfyddiadau, a'r meysydd i'w gwella a nodwyd sy'n deillio o'r gwaith hwn.

Gwasanaethau Adnoddau Cymunedol y Fro (GACF) Mae'r gwasanaeth hwn yn darparu gwasanaeth alluogi a chymorth i alluogi oedolion i adennill annibyniaeth. Archwiliwyd profiadau dinasyddion o'r GACF, cymorth gan staff gofal, cyfathrebu a chymryd rhan mewn cynllunio gwasanaethau.

Canfyddiadau Ymgynghoriad GACF:

- Roedd dinasyddion yn teimlo bod gwybodaeth a chyngor defnyddiol ar gael ar ddechrau'r gwasanaeth a hefyd yn ôl yr angen.
- Roedd yr ymatebwyr yn teimlo bod gweithwyr gofal a'r gwasanaeth yn ddibynadwy ac yn barchus iawn iddynt.
- Mae'r gwasanaeth a'r cymorth a ddarparwyd ganddo wedi gwneud gwahaniaeth cadarnhaol iawn i les.
- Roedd dinasyddion yn teimlo'n fwy diogel yn gorfforol ac yn emosiynol o ganlyniad i'r gwasanaeth.
- Roedd llawer yn teimlo eu bod yn rhan o gynllunio'r gwasanaeth ac hefyd yn teimlo y gallent wneud newidiadau pe bai angen.
- Roedd unigolion weithiau'n profi oedi neu newidiadau i amseroedd galwadau, ond cawsant eu hysbysu mewn da bryd, a hefyd eglurwyd unrhyw oedi yn llawn.

Meysydd ar gyfer gweithredu:

- Mae'r gwasanaeth hwn yn parhau i ddarparu gofal a chymorth o ansawdd uchel i unigolion ac mae'n sicrwydd i deuluoedd a gofalwyr.
- Defnyddiwyd canfyddiadau'r ymarfer ymgysylltu i lywio newidiadau a wnaed i brosesau a gweithdrefnau, megis darparu gwybodaeth a dylunio taflenni mwy amrywiol.
- Bydd y canlyniadau'n gwella cydweithio gyda Thimau Iechyd fel y Nyrsys Ardal a Gofal Sylfaenol (meddygon teulu), yn enwedig mewn perthynas â chymorth gyda meddyginiaeth.
- Dylid cynnal archwiliadau ac adolygiadau rheolaidd a pharhaus yn rheolaidd mewn cydweithrediad â'r Swyddog Ansawdd a Rheolwr Ansawdd a Chydymffurfio GACF.

Mae'r **Gwasanaeth Lleoliadau Oedolion (a elwir hefyd yn 'Rhannu Bywydau')** yn fodel gofal sy'n galluogi oedolion sy'n agored i niwed i dderbyn cymorth a/neu lety mewn amgylchedd teuluol a ddarperir gan Letywyr Lleoliadau Oedolion cymeradwy

- Roedd yr ymgynghoriad hwn yn ymgorffori ymgysylltu â lletywyr, unigolion a'u teuluoedd i werthuso eu profiad o'r gwasanaeth. Archwiliodd y gwaith brofiadau o'r broses baru, eu rhan yn y Cynllun 'Amdanaf i' a chyfranogiad mewn bywyd teuluol/integreiddio â theulu'r lletywyr a'r gymuned leol.

Canfyddiadau ymgynghoriad y Gwasanaeth Lleoliadau Oedolion:

- Roedd unigolion yn teimlo'n hapus gyda'r wybodaeth a gawsant ac mae'n well ganddynt siarad â phobl am y gwasanaeth newydd.
- Roedd unigolion yn teimlo eu bod yn rhan o ysgrifennu eu cynllun "amdanaf i" ac yn teimlo ei fod yn adlewyrchu'r hyn sy'n bwysig iddyn nhw.
- Mae unigolion yn teimlo'n ddiogel lle maent yn byw ac yn mwynhau'r gweithgareddau maent yn eu gwneud. Mae hyn yn eu helpu i deimlo'n rhan o'r teulu y maent yn byw gyda nhw.
- Mae lletywyr yn fodlon gyda'r wybodaeth a gawsant i fod yn lletywyr ac yn teimlo'n gadarnhaol am y broses gyflwyno. Mae'r rhan fwyaf yn teimlo'n wybodus am unrhyw ddatblygiadau/newidiadau i'r gwasanaeth a bod dogfennau'n adlewyrchu trafodaethau a gynhaliwyd gyda phob parti.
- Roedd y lletywyr ar y cyfan yn teimlo eu bod yn cael cefnogaeth ac yn rhan o ymweliadau, adolygiadau a materion yn ymwneud â gofal. Roeddent yn fodlon ar y cyfan gyda hyfforddiant ac yn teimlo ei fod yn eu paratoi i fod yn lletywyr.
- Mae'r lletywyr yn teimlo yr ymgynghorir â nhw a'u bod yn cael eu cynnwys yn ystod cyfarfodydd cynllunio. Maent yn teimlo eu bod yn cael arweiniad i ddarparu gofal a chymorth sy'n briodol i'r unigolyn.
- Mae'r lletywyr yn fodlon gyda'r cymorth gan y gwasanaeth os bydd materion lleoliad yn codi. Mae gan y lletywyr ddealltwriaeth dda o'u rôl mewn perthynas â chefnogi sgiliau rheoli arian a sgiliau byw.
- Mae'r lletywyr wedi eu plesio'n fawr gyda'r cymorth oddi wrth eu gweithwyr prosiect ac yn teimlo eu bod yn gallu mynd atynt mewn perthynas â materion y maent yn eu hwynebu.

Meysydd ar gyfer gweithredu:

- Mae gwybodaeth ar gyfer unigolion a lletywyr yn parhau i fod yn ffocws a bydd dulliau amgen yn parhau i gael eu harchwilio, yn enwedig nawr bod cyfyngiadau wedi cael eu codi. Mae ffilm yn cael ei datblygu sy'n arddangos gwaith y lletywyr a manteision y cymorth y maent yn ei roi i unigolion.
- Mae cymryd rhan mewn cynllunio gofal yn ffocws allweddol a bydd y cynllun 'Amdanaf i' yn parhau i gael ei adolygu a'i ddiweddarau'n rheolaidd.
- Bydd y gwasanaeth yn parhau i sicrhau bod unigolion yn parhau i fod yn hapus gyda'r gweithgareddau ac yn teimlo eu bod yn cael eu bodloni gyda'r cyfleoedd a gynigir iddynt.
- Yn ddiweddar, mae'r gwasanaeth wedi adolygu a datblygu ei raglen hyfforddi a bydd yn parhau i fonitro hyn.

Cyfleoedd Dydd: Mae'r gwasanaeth hwn yn rhoi cyfleoedd i bobl gymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau â chymorth yn cynnwys hamdden a gwirfoddoli yn y gymuned.

- Diben yr ymgynghoriad hwn oedd archwilio lefelau bodlonrwydd unigolion gyda'r ystod o weithgareddau gwasanaeth dydd, cymorth staff a chyflawni canlyniadau personol. Cynhaliwyd hyn ar draws ein gwasanaeth dydd anabledd dysgu, gwasanaeth dydd i unigolion oedrannus a New Horizons, ein gwasanaeth dydd ar gyfer unigolion ag anableddau corfforol.

Canfyddiadau ymgynghoriad Cyfleoedd Dydd:

- Unigolion – Roedd y rhan fwyaf yn hapus gyda’r cyfathrebu gyda staff ac yn tynnu sylw at bwysigrwydd rhyngweithio cymdeithasol ag eraill. Roedd unigolion ar draws y gwasanaethau dydd yn teimlo'n ddiogel a’u bod yn cael eu cefnogi ac wedi magu mwy o hyder cymdeithasol.
- Mae unigolion yn teimlo eu bod yn gallu aros yn annibynnol ond maent yn arbennig o fodlon â'r amser y gall staff ei dreulio gyda nhw yn helpu gyda gweithgareddau a rhoi cymorth gyda rhai tasgau.
- Unigolion - Yn fodlon gyda’r gweithgareddau ac eisiau gallu mynychu ar benwythnosau.
- Teuluoedd – Y rhan fwyaf yn teimlo'n hapus gyda’r cyngor, y gofal a’r cymorth a’r cyfathrebu. Mae teuluoedd yn teimlo bod y gwasanaeth yn hyrwyddo lles dinasyddion, yn enwedig os ydynt yn ynysig gartref.
- Roedd teuluoedd yn teimlo, er bod adnoddau'n brin, bod unigolion yn teimlo'n ddiogel ac yn rhan o grŵp.
- Mae teuluoedd yn teimlo bod y gwasanaeth yn effeithiol yn enwedig mewn perthynas â gweithgareddau a chynyddu hunanhyder i wneud mwy o weithgareddau wedi'u teilwra i anghenion yr unigolyn.

Meysydd ar gyfer gweithredu:

- Bydd ffocws pellach ar wella’r gweithgareddau sydd ar gael i unigolion, yn enwedig y rhai sy'n helpu i gefnogi iechyd meddwl a lles.
- Bydd y gwasanaeth yn parhau i gyfathrebu'n dda gyda theuluoedd ac yn sicrhau ei fod yn diwallu anghenion unigolion. Mae'r rhai yn y gwasanaeth dydd anabledau dysgu yn hoffi’r cyswllt wyneb yn wyneb â gweithwyr cymorth a gallu rhyngweithio gydag eraill tra'n teimlo'n ddiogel yn amgylchedd y gwasanaeth dydd.
- Bydd y gwaith hwn yn llywio’r gwaith o archwilio ymhellach sut rydym yn ymgysylltu ag unigolion yn y Gwasanaeth Dydd fel ein bod yn gallu sicrhau bod gan bawb lais ac yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi i roi eu barn.

Tîm Alcohol a Chyffuriau'r Fro (Newlands) (Darparu cymorth gofal cymdeithasol i'r rhai sydd ag anawsterau camddefnyddio sylweddu).

- Diben yr ymarfer ymgysylltu oedd asesu boddhad â'r gwasanaeth mewn perthynas â chymorth, cyngor a chynllunio gofal.

Canfyddiadau ymgynghoriad Tîm Alcohol a Chyffuriau’r Fro:

- Roedd gweithwyr allweddol mewn cysylltiad yn aml ac yn parhau’n gyson, fel bod unigolion yn gallu meithrin ymddiriedaeth.

- Roedd yr ymatebwyr yn teimlo bod y gwasanaeth wedi cael effaith gadarnhaol iawn ar eu lles. Mae rhai yn teimlo eu bod yn ddyledus am eu bywyd i'r gwasanaeth.
- Mae unigolion yn teimlo eu bod yn flaenoriaeth i'r gwasanaeth ac nad ydynt yn cael eu barnu.
- Roedd unigolion yn teimlo eu bod yn derbyn gwybodaeth a chynghor ar adegau oedd yn ddefnyddiol iddyn nhw, waeth pa adeg o'r dydd oedd hi.
- Mae'r cymorth wedi bodloni (a mynd y tu hwnt i) ddisgwyliadau unigolion.

Meysydd ar gyfer gweithredu:

- Datblygu'r dulliau cyfathrebu presennol i hwyluso ymgysylltu ac adborth ar ddiwedd y gwasanaeth.
- Sicrhau bod y gwasanaeth yn parhau i fod ar gael yn hawdd gan nad yw llawer yn gwybod am y cymorth gan Dîm Alcohol a Chyffuriau'r Fro.

Gwasanaeth Cymorth Cymunedol Iechyd Meddwl Ardal Bro Morgannwg: Mae'r gwasanaeth hwn yn cefnogi unigolion i gael cymorth cymdeithasol a byw ar ôl cael eu hatgyfeirio am gymorth i'w hiechyd meddwl.

Gwasanaeth Iechyd Meddwl Ardal Bro Morgannwg: canfyddiadau'r ymgynghoriad:

- Roedd croeso i bawb pan oeddent yn mynychu am y tro cyntaf ac roeddent yn cael eu sicrhau, gellid eu cefnogi i ailintegreiddio i'r gymuned a hefyd teimlo eu bod yn perthyn i grŵp.
- Roedd unigolion yn teimlo eu bod yn cael digon o wybodaeth am y ffordd y gall y gwasanaeth helpu.
- Mae'r rhan fwyaf yn teimlo eu bod wedi cael y cymorth oedd ei angen arnynt gan y gwasanaeth. Maent wedi sylwi ar welliannau sylweddol yn eu lles ers cael y cymorth.
- Mae'r grwpiau cymdeithasol wedi helpu unigolion i ddatblygu hyder i ryngweithio mewn grwpiau llai a threulio amser gydag eraill mewn lleoliad anffurfiol.

Meysydd ar gyfer Gweithredu:

- Mae'r tai cymorth sy'n cael eu goruchwylio gan y Gweithwyr Cymorth Cymunedol yn cael ei wella.
- Bydd y gweithwyr cymorth yn parhau i ddarparu cymaint o wybodaeth ag sydd ei hangen ar yr unigolion ar adeg sy'n briodol iddyn nhw, er mwyn sicrhau nad ydynt yn cael eu gorlethu.
- Bydd cymorth therapydd galwedigaethol yn cael ei sicrhau i ddarparu cymorth pellach ar gyfer tasgau bob dydd.

- Ystyriwch sefydlu system bydi pan fydd pobl newydd yn ymuno â'r grŵp, am y bydd aelodau eraill sydd wedi cael profiad o'r cymorth yn gallu rhoi gwybodaeth gychwynnol mewn ffordd anffurfiol.
- Cynnal tryloywder ynghylch yr hyn y gall ac na all y gwasanaeth ddarparu cymorth ar ei gyfer fel bod disgwyliadau'n parhau i gael eu rheoli.

Gwasanaethau Gofalwyr - Mae'r gwasanaeth hwn yn cefnogi ac yn gweithio mewn partneriaeth â gofalwyr di-dâl, i gael y canlyniadau gorau iddyn nhw a'r person y maent yn gofalu amdano.

Canlyniadau Ymgynghoriad Gofalwyr:

- Cafodd y rhan fwyaf o ofalwyr ddigon o wybodaeth am gymorth i ofalwyr di-dâl ond nid oedd pob un ohonynt yn ymwybodol o'u hawl i asesiad o'r angen am ofalwr.
- Roedd y rhan fwyaf wedi derbyn asesiad gofalwyr di-dâl, ac roedd llawer yn fodlon â'r broses asesu.
- Roedd gofalwyr yn gwerthfawrogi'r ddealltwriaeth a'r pryder a ddangoswyd gan y gwasanaeth a chan yr aseswyr.
- Roedd y rhan fwyaf o ofalwyr yn fodlon ag unrhyw gymorth neu wasanaethau y maent wedi'u derbyn o ganlyniad i'w hasesiad anghenion.

Meysydd ar gyfer gweithredu:

- Bydd cyfathrebu yn parhau i fod yn ffocws fel bod gofalwyr di-dâl yn parhau i fod yn ymwybodol o unrhyw ddatblygiadau ac o'r Porth Gofalwyr.
- Bydd y gwasanaeth yn parhau i sicrhau bod gwybodaeth ar gael am asesu a chymorth i ofalwyr di-dâl.
- Bydd y gwasanaeth yn parhau i sicrhau bod gofalwyr yn teimlo bod rhywun yn gwrandao arnynt ac yn eu deall.
- Bydd y cysylltiadau cryf â gwasanaethau eraill yn cael eu cynnal i alluogi gweithio mewn partneriaeth i gefnogi ein gofalwyr di-dâl.
- Byddwn yn parhau i archwilio'r broses asesu anghenion gofalwyr i sicrhau ei bod yn ddefnyddiol ac yn effeithiol.
- Bydd dulliau ymgysylltu yn parhau i ddatblygu i sicrhau ein bod yn rhoi llais i ofalwyr di-dâl ac yn hwyluso gwelliant pellach i'r cymorth yr ydym yn ei ddarparu.

Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc

- Yn ystod 2022-23, gwnaethom archwilio barn a phrofiadau plant, pobl ifanc, rhieni a gofalwyr mewn perthynas â'n Tîm Lleoliadau, Dechrau'n Deg, Iechyd ac Anabledd Plant a Thîm 14 Plus.
- Ceir crynodeb isod o'r prif ganfyddiadau a'r canlyniadau a'r meysydd i'w gwella a nodwyd sy'n deillio o'r gwaith hwn.

Tîm Lleoliadau - (Asesu, cymeradwyo, a chefnogi gofalwyr maeth ar gyfer plant Bro Morgannwg ar y cyd â'n Panel Maethu).

- Archwiliwyd barn gofalwyr maeth i ganfod eu boddhad gyda'r cymorth, yr hyfforddiant a'r datblygiad y maent yn eu cael i gyflawni eu rôl.

Canlyniadau'r Tîm Lleoliadau:

- Roedd gofalwyr maeth yn teimlo'n gadarnhaol am y broses adolygu flynyddol. Mae'r rhan fwyaf yn teimlo eu bod wedi cael eu cefnogi drwy newidiadau yn y gwasanaeth.
- Mae gofalwyr maeth yn teimlo'n fodlon â'r cyfathrebu a'r cymorth y mae eu gweithiwr cymdeithasol goruchwylio wedi'i ddarparu, ac o'r gwasanaeth maethu yn gyffredinol. Mae gofalwyr maeth hefyd yn teimlo bod y grwpiau anffurfiol yn adnodd gwerthfawr i godi unrhyw bryderon neu awgrymu gwelliannau.

Meysydd ar gyfer gweithredu:

- Sicrhau bod y dulliau cyfathrebu â gofalwyr maeth yn effeithiol a bod grwpiau ffurfiol ac anffurfiol yn parhau i gael eu cefnogi.
- Cynnal lefelau da o gefnogaeth barhaus i ofalwyr maeth newydd a'u cyfeirio at ffynonellau cymorth.
- Sicrhau bod gan bob gofalwr maeth gynllun dysgu a datblygu a'i fod yn diwallu eu hanghenion unigol.
- Sicrhau bod gofalwyr maeth yn cael cymorth i fyfyrion ar yr hyn y maent wedi ei ddysgu a hefyd i'w roi ar waith.

Mae **Cydweithfa Fabwysiadu Y Fro, Y Cymoedd a Chaerdydd (FCCh)** yn dod â gwasanaethau mabwysiadu Cynghorau Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg, Merthyr Tudful, Caerdydd a Rhondda Cynon Taf ynghyd. Mae'r gwasanaeth yn cefnogi unigolion drwy'r broses fabwysiadu ac yn rhoi cefnogaeth ar ôl mabwysiadu)

- Er mwyn deall profiadau unigolyn o'r broses fabwysiadu a'r gefnogaeth y maent yn ei chael cyn ac ar ôl mabwysiadu.

Canlyniadau FCCh:

- Roedd mabwysiadwyr yn falch o'r wybodaeth a roddwyd gyda'r ymateb cychwynnol oddi wrth y gwasanaeth.
- Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr wedi ymgysylltu â gwasanaethau eraill a gynigiwyd iddynt gan TESSA (e.e., gweminarau, gweithgareddau lles), ac mae ganddynt ddiddordeb mewn gwasanaethau tebyg pellach.
- Roedd y rhan fwyaf yn teimlo bod y cymorth yn rhoi sefydlogrwydd i'w teuluoedd.

- Roedd yr ymatebwyr wedi gallu cysylltu â gweithwyr proffesiynol yn hawdd pan oedd angen.
- Maent yn gwerthfawrogi'r cyngor a'r cymorth ymarferol gan y gwasanaeth
- Roedd y mabwysiadwyr yn fodlon â chynnwys y Cynllun Cymorth Mabwysiadu ac esboniad o'r prosesau sy'n gysylltiedig â'r panel mabwysiadu.
- Roedd yr ymatebwyr yn fodlon â'r wybodaeth a gawsant a chynnwys y cynllun cymorth mabwysiadu. Codwyd rhai materion mewn perthynas ag amserlenni ar gyfer y broses baru.
- Nid oedd rhai mabwysiadwyr yn ymwybodol o'r ffordd i gael gafael ar gymorth ar ôl lleoliad.

Meysydd ar gyfer gweithredu:

- Sicrhau bod cysondeb cyfathrebu yn cael ei gynnal rhwng gweithwyr cymdeithasol a mabwysiadwyr.
- Sicrhau bod ansawdd a gwybodaeth gynhwysfawr yn cael ei darparu am y plentyn cyn y broses baru.
- Parhau i sicrhau bod ceisiadau am gymorth a gwybodaeth yn cael sylw mewn modd amserol a bod y gwasanaeth yn parhau i ddangos ei fod yn gwrandio ar fabwysiadwyr ac yn eu cynnwys wrth wneud penderfyniadau.
- Angen am gyfranogiad parhaus gweithiwr pontio a chymorth gan weithwyr cymdeithasol.
- Parhau i gynnig cymorth a chynghor yn rhagweithiol gan gynnwys cyfeirio at wasanaethau cymorth priodol.

Dechrau'n Deg (cefnogi plant a'u teuluoedd i gael dechrau gwell mewn bywyd).

- Gofynnwyd i rieni sy'n defnyddio gwasanaethau Dechrau'n Deg am eu boddhad gyda phob agwedd ar y gwasanaeth a'r cymorth a gawsant.

Canlyniadau Gwasanaeth Dechrau'n Deg:

- Mae rhieni'n derbyn diweddariadau am amrywiaeth o elfennau o'r cymorth gan y feithrinfa.
- Mae'r gwasanaeth wedi deall anghenion teuluoedd ac mae rhieni'n gwerthfawrogi hyn.
- I ddechrau, roedd y feithrinfa yn dda iawn am ddiweddarau'r dudalen cyfryngau cymdeithasol ac mae angen cynnal hyn ynghyd â mathau eraill o ddiweddariadau.
- Roedd teuluoedd yn teimlo bod cyngor yn bodloni disgwyliadau'r rhan fwyaf o bobl ac roedd cyfraniad Dechrau'n Deg yn cael effaith gadarnhaol ar eu perthynas deuluol a'u lles emosiynol.

- Darperir "Llyfrynnau Taith Ddysgu" sy'n cynnwys llawer o'r meysydd a gall rhieni fynd â nhw gartref i'w cadw.

Meysydd ar gyfer gweithredu:

- Parhau i ganolbwyntio ar gynnal safonau cyfathrebu da gyda theuluoedd a rhoi gwybodaeth berthnasol a chryno.
- Angen mwy o wybodaeth i rieni am arferion cyffredinol yn ystod y dydd a lles cyffredinol.
- Roedd teimlad hefyd bod angen mwy o fanylion am ryngweithio cymdeithasol eu plentyn, er enghraifft a oeddent yn chwarae mwy ar eu pen eu hunain neu gyda grŵp o blant eraill.
- Cynnal lefelau ymgysylltu â theuluoedd a sicrhau bod cyswllt yn addysgiadol ac esboniadau'n cael eu rhoi os nad yw'r gwasanaeth yn gallu cynorthwyo.
- Mae'r gwasanaeth wedi cofrestru ar gyfer ap rhannu gwybodaeth newydd fel y bydd rhieni'n gallu ei ddefnyddio a chael gwybodaeth yn ôl eu dymuniad.

lechyd ac Anabledd Plant (Darparu gwasanaethau i blant a phobl ifanc sy'n anabl).

- Roedd yr ymarfer ymgysylltu hwn yn ceisio asesu profiad plant ag anableddau a'u teuluoedd o ran eu gofal a'u cefnogaeth, cymryd rhan mewn gwneud penderfyniadau ac ansawdd cyfathrebu.

Canlyniadau y Tîm Iechyd ac Anableddau Plant:

- Roedd y rhan fwyaf o rieni'n gallu cael gwybodaeth am y ffordd y gallai'r tîm eu cefnogi ac wedi gallu siarad â gweithiwr cymdeithasol eu plentyn os a phryd bynnag yr oeddent wedi bod angen gwneud hynny.
- Roedd y rhan fwyaf o rieni'n teimlo eu bod yn cael eu trin â pharch ac yn teimlo eu bod yn gallu cael y cymorth oedd ei angen arnynt.
- Mae'r cymorth a dderbyniwyd wedi helpu rhieni a'u plant i deimlo'n ddiogel.
- Cefnogwyd pobl ifanc hefyd i deimlo'n ddiogel ac roeddent yn gallu cymryd rhan mewn gweithgareddau yr oeddent yn eu mwynhau yn yr ysgol.
- Roedd pobl ifanc yn hapus gyda'r cymorth a gawsant ac roeddent yn gallu gofyn i'w gweithiwr cymdeithasol neu weithiwr allweddol a oedd ganddynt unrhyw gwestiynau am yr help sydd ganddynt yn yr ysgol ac yn y cartref.
- Roedd rhieni'n teimlo eu bod yn rhan o ddatblygiad cynlluniau gofal a chymorth ar gyfer eu plant.

Meysydd ar gyfer gweithredu:

- Gwella ymhellach y wybodaeth a roddir ar gyfer cymorth a gwasanaethau sydd ar gael lle bo hynny'n briodol.
- Sicrhau bod teuluoedd yn parhau i gael eu cynnwys ac yn cymryd rhan yn y gwaith o gynllunio ar gyfer gofal a chymorth eu plentyn.

- Sicrhau bod teuluoedd yn derbyn digon o wybodaeth/cefnogaeth ynglŷn â'r broses bontio.
- Sicrhau bod eu gweithiwr cymdeithasol yn gwrando ar blant a phobl ifanc mewn perthynas â'r cymorth y maent yn teimlo sydd ei angen arnynt.

Tîm 12 Plus

- Diben yr ymarfer ymgysylltu hwn oedd ymgysylltu â phobl ifanc sy'n ymwneud â'n tîm 14 plus a chasglu eu barn mewn perthynas â chynllunio gofal, darparu cymorth ar gyfer gadael gofal a chyfeirio at gymorth asiantaethau a gwasanaethau eraill.

Canlyniadau Tîm 14 Plus:

- Roedd y rhai sy'n gadael gofal yn gallu cysylltu â'u cynghorydd person ifanc yn hawdd, ac os nad oeddent ar gael, maent yn gwybod y byddent yn dod yn ôl atynt cyn gynted ag y gallent.
- Mae'r rhai sy'n gadael gofal yn teimlo bod eu cynghorydd person ifanc wedi gallu eu helpu gyda'u cwestiynau a'u pryderon a'u trin â chwarteisi a pharch.
- Dywedodd pobl ifanc fod y gwasanaeth wedi eu helpu i deimlo'n ddiogel.
- Mae'r rhan fwyaf yn teimlo bod y gwasanaeth wedi eu helpu i'w paratoi ar gyfer bod yn oedolyn ond roeddent yn teimlo y byddai angen cymorth ysgafnach pellach arnynt ar ôl y cam hwn.

Meysydd ar gyfer gweithredu:

- Parhau i ganolbwyntio ar archwilio cyfleoedd i ymgysylltu'n ehangach trwy'r cyfryngau cymdeithasol e.e. What's App ac Instagram.
- Parhau i gynnwys pobl ifanc mewn cyfleoedd ymgysylltu ac ymgynghori i sicrhau bod ganddynt lais cryf wrth ddatblygu gwasanaethau.
- Canolbwyntio ar sicrhau bod y tîm yn gallu teilwra cymorth i anghenion unigol e.e. cyngor ar dai, lles, byw'n annibynnol ac ati.
- Roedd y rhan fwyaf o bobl sy'n gadael gofal yn teimlo eu bod yn cael eu cynnwys wrth gynllunio eu gofal yn y dyfodol ac roedd pawb yn teimlo bod rhywun wedi gwrando arnynt.
- Nod y gwasanaeth yw parhau i ganolbwyntio ar gysondeb ac ansawdd y cysylltiadau a wneir gan Weithwyr Cymdeithasol a Chynghorwyr Pobl Ifanc (ar gyfer y rhai dros 18 oed).

Rheoli Adnoddau a Diogelu

- Yn ystod 2022/23, cynhaliwyd ymarfer ymgysylltu yn ein lleoliadau gofal preswyl. Ceir crynodeb isod o'r prif ganfyddiadau a'r canlyniadau a'r meysydd i'w gwella a nodwyd sy'n deillio o'r gwaith hwn.

Gofal Preswyl (Gwasanaethau preswyl a seibiant).

- Gofynnwyd i breswylwyr, perthnasau a staff am eu barn a'u sylwadau ynghylch ansawdd y gofal a'r cymorth a roddir gan ein cartrefi gofal preswyl a oedd yn cynnwys: Cartref Porthceri, Southway, Tŷ Dyfan a Thŷ Dewi Sant. Trefnwyd grwpiau ffocws gyda phreswylwyr a'u perthnasau fel y gallai perthnasau ddod i mewn i'r cartref a chymryd rhan gyda'r preswylwyr.

Canlyniadau Gofal Preswyl:

Perthnasau - Roedd perthnasau yn falch o'r gofal a'r cymorth a ddarperir i breswylwyr ar draws y cartrefi, ac roedd teuluoedd yn hapus gyda'r dewisiadau a'r cyfleoedd i breswylwyr ond fe wnaethant roi awgrymiadau ar gyfer gwella gweithgareddau a'u teilwra i ddiddordebau'r preswylwyr.

Mae perthnasau'n teimlo bod anghenion preswylwyr wedi cael eu diwallu gan y gwasanaeth yn briodol ac yn gyffredinol yn hapus iawn gyda'r cymorth a roddir i'r preswilydd. Roeddent yn teimlo'n dawl eu meddwl bod y preswylwyr yn cael eu cadw'n ddiogel.

Preswylwyr - Teimlo'n ddiogel ac yn cael cefnogaeth gref, a'r rhan fwyaf yn gallu cymryd rhan mewn gweithgareddau o ddiddordeb. Roedd y staff yn cael eu gwerthfawrogi a'u hoffi. Roedd y preswylwyr yn teimlo'n ddiogel yn y cartrefi ac yn gallu cymryd rhan mewn gweithgareddau o'u dewis. Roedd y preswylwyr yn gwerthfawrogi amrywiaeth ac ansawdd y bwyd a ddarperir ac roedd eu lles wedi gwella'n sylweddol ers byw yn y cartref gan eu bod yn teimlo'n ddiogel, ac yn cael cefnogaeth wrth gynnal rhywfaint o annibyniaeth.

Staff - Roedd y rhan fwyaf yn teimlo bod y gwasanaeth yn ddefnyddiol i bawb oedd yn gysylltiedig. Roeddent yn teimlo eu bod yn cael eu cynnwys mewn ymweliadau cychwynol ac yn gallu rhoi gwybodaeth i breswylwyr posibl a'u teuluoedd. Roedd y staff yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi gan breswylwyr a pherthnasau, ond roeddent yn teimlo bod prinder staff yn effeithio ar yr amser yr oeddent yn gallu ei dreulio gyda phreswylwyr. Mae staff yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi yn eu rolau.

Meysydd ar gyfer gweithredu:

- Datblygu mwy o wydnwch drwy wella'r cymorth sydd ar gael i dimau staff gofal preswyl fel goruchwylio, cyfleoedd hyfforddi o fewn eu hamser gwaith, ac annog cyfranogiad yn y sesiynau lles corfforaethol.
- Parhau i weithio gyda staff i geisio nodi ffyrdd y gallwn wella capasiti i roi mwy o amser o ansawdd i staff gyda phreswylwyr.

- Sicrhau bod y cartrefi'n parhau i gynnig amrywiaeth o weithgareddau i breswylwyr i wella eu lles.
- Sicrhau bod preswylwyr, perthnasau a staff yn parhau i gael cyfleoedd i roi eu barn am y gwasanaeth.

Canmoliaeth a Chwynion

Canmoliaeth

Mae canmoliaeth yn chwarae rhan hanfodol o ran deall yr hyn yr ydym yn ei wneud yn dda a'n galluogi i rannu'r profiad hwn ar draws ehangder ein gwasanaethau. Mae hefyd yn fodd i ni ddathlu a chanmol ymdrechion ac ymroddiad ein staff.

Yn ystod 2022/23, derbyniodd y Gwasanaethau Cymdeithasol gyfanswm o **103** o ganmoliaethau. Roedd y canmoliaethau'n ymwneud ag amrywiaeth o wasanaethau a chymorth a dderbyniwyd gan ddinasyddion. Byddai'r canmoliaethau yn aml yn enwi staff penodol lle roeddent yn teimlo bod yr unigolyn wedi mynd y tu hwnt i'r hyn a ddisgwylid ganddo.

Bydd deall profiad defnyddiwr y gwasanaeth yn well mewn perthynas â'r hyn y maent yn ei werthfawrogi a'r hyn sydd bwysicaf iddynt, nid yn unig yn ein galluogi i greu darlun gwell o'r ffordd y mae ein gwasanaethau'n perfformio, ond bydd yn helpu i atgyfnerthu ymdeimlad o falchder yn ein gwaith.

Amlinellir isod ddadansoddiad o'r holl ganmoliaethau yn ôl Adran.

Gwasanaeth	Nifer y canmoliaethau
Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc	24
Gwasanaethau Oedolion	76
Rheoli Adnoddau a Diogelu	3
Nifer y canmoliaethau	103

Isod ceir cipolwg ar rai o'r canmoliaethau a gawsom dros y flwyddyn ddiwethaf.

- **Therapi Galwedigaethol** – Diolch yn fawr iawn am yr holl gyngor a chefnogaeth rydych chi wedi'u rhoi nid yn unig i'r bobl rydyn ni'n eu cefnogi ond i mi fy hun. Rydych chi i gyd yn anhygoel ac yn gwneud gwahaniaeth i fywydau rhai pobl arbennig. Diolch am ddod i'r adwy bob amser a sicrhau bod ein holl offer yn gweithio ac adnewyddu unrhyw beth sydd wedi torri. Rwy'n dymuno'r gorau i chi
- **Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc** – Mae'r GC wedi bod yn wych. Fe wnes i fynegi i'r GC ei bod hi'n amlwg pa mor galed mae hi wedi gweithio, ac mae'n dangos pa mor dda y mae wedi dod i adnabod y plant yn y cynlluniau y mae hi wedi'u cynhyrchu!

- **Gwasanaethau Oedolion** - Hoffwn ddiolch yn ffurfiol i bawb sy'n gysylltiedig â darparu gofal o ddydd i ddydd i fy mam ac eraill, gan gynnwys staff gofal/domestig/arlwyo/rheoli.
- **GACF** - pa mor hapus oedd hi gyda lefel y gofal y mae hi wedi bod yn ei dderbyn, dywedodd na allai ymdopi hebddo ar hyn o bryd, ac maen nhw'n bywiogi ei diwrnod a'i hannog. Mae pawb wedi bod mor hyfryd ac fel teulu maen nhw'n dawel eu meddwl ac yn hapus iawn i wneud hynny.

Cwynion

Trwy ein proses ymdrin â chwynion rydym wedi parhau i ganolbwyntio ar gynnal dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn o ran sut rydym yn delio â chwynion. Trwy ddilyn y dull hwn, mae'n ein galluogi i ddeall y materion yn llawn o safbwynt y dinesydd ac yn ein rhoi mewn sefyllfa gryfach i allu dod o hyd i benderfyniad dymunol, dysgu gwersi ac ystyried meysydd i'w gwella.

Mae'r Swyddog Cwynion yn mynd ati'n rhagweithiol i atal a chyfryngu materion cyn bod ganddynt y potensial i arwain at gŵyn. Weithiau, gall dinasyddion gysylltu â'r Gwasanaethau Cymdeithasol heb wybod a yw eu pryder yn cael ei ystyried yn gŵyn ffurfiol ai peidio. Lle mae hyn yn wir, diffinnir y rhain fel ymholiadau, nad ydynt o ganlyniad bob amser yn symud ymlaen i fod yn gŵyn.

Ar 31 Mawrth, derbyniwyd cyfanswm o **47** o ymholiadau ar draws tair adran y Gwasanaethau Cymdeithasol. Dengys y data hwn bod siarad ag unigolyn sydd wedi mynegi pryder yn ffordd effeithiol a gwerthfawr o ddod i benderfyniad cynnar ac atal pryderon rhag gwaethygu'n gwynion.

O 31 Mawrth 2023, derbyniwyd cyfanswm o 51 o gwynion, a daeth 26 ohonynt i ben yn ystod y flwyddyn (naill ai heb gyswllt pellach neu ystyriwyd nad oedd modd ystyried y gŵyn yn y broses gwyno).

O'r 25 cwyn hyn oedd yn weddill, cafodd 89.2% eu datrys o fewn yr amserlenni dynodedig, cafodd 9.5% eu datrys y tu allan i'r amserlenni ac roedd 1.3 (3) yn parhau ar agor ddiwedd y flwyddyn, felly'n parhau ymlaen i 2023/24.

Mae'n ofynnol i'r tîm cwynion a chanmoliaethau weithio o fewn amserlenni statudol ar gyfer cydnabod ac ymateb i gwynion. Mae'r amserlenni dynodedig fel isod:

- Ymateb i gwynion Cam 1, 10 diwrnod gwaith a 5 diwrnod gwaith arall i gadarnhau canlyniad y drafodaeth.
- Cwynion Cam 2, 25 diwrnod gwaith.

Mae'r Tîm Cwynion yn cynnal cyfarfodydd wythnosol gyda Rheolwr Gweithredol a Rheolwyr Tîm i gefnogi goruchwyliaeth ac ymateb amserol ac effeithiol i gwynion.

Mae'r tabl isod yn rhoi dadansoddiad llawn o'r holl ymholiadau a chanmoliaethau a ddaeth i law yn 2022/23.

Adran Gwasanaeth	Ymholiadau	Cwynion Cam 1	Cwynion Cam 2	Ombwdsmon	Ymatebwyd o fewn yr amserlenni	Dirwyn y cwynion i ben	Cyfanswm y cwynion a'r ymholiadau a dderbyniwyd
Gwasanaethau Oedolion	12	20	2	0	11	6	32
Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc	29	29	1	3	12	16	58
Rheoli Adnoddau a Diogelu	6	2	0	0	2	4	8
Cyfanswm	47	51	3	3	25	26	98

2 - Sylwer bod cwynion yr Ombwdsmon yn cael eu cofnodi ar wahân i weddill y data cwynion.

Sylwer bod cwynion cam 2 hefyd yn cael eu cofnodi yng nghyfanswm Cam 1.

Mae'r tabl isod yn rhoi dadansoddiad o natur cwynion cam 1 yn ôl adran.

Math o Gŵyn	Gwasanaethau Oedolion	Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc	Rheoli Adnoddau a Diogelu	Cyfanswm y cwynion yn ôl natur y gŵyn
Codi tâl am wasanaethau	1	2	1	4
Diffyg ymateb	13	21	1	35
Ansawdd/lefel y gwasanaeth	17	18	1	39
Cwyn am staff	8	6	1	15
Yn anhapus gyda gofal	19	30	5	54
Cyathrebu	8	18	3	29
Arall	22	54	11	87

Sylwer y gallai fod mwy nag un rheswm pam y derbynir cwyn. Er enghraifft, roedd un gŵyn yn gysylltiedig â diffyg ymateb, ansawdd y gwasanaethau a ddarparwyd a hefyd taliadau am wasanaeth.

Gwersi a Ddysgwyd

Yn ystod 2022-23 mae crynodeb o'r prif wersi a ddysgwyd yn cynnwys:

- Angen cyswllt clir a pharhaus gyda defnyddwyr gwasanaeth a theuluoedd i'w diweddarau. Atgoffa'r staff i ymateb yn gyflym ac yn briodol lle mae gwallau, cwynion neu bryderon yn cael eu codi.
- Gosod disgwyliadau clir o ran darparu gwasanaethau gydag amlinelliad clir o gostau, amserlenni a pha lefel o wasanaeth y gellir ei ddarparu mewn cyfnod heriol.
- Yr angen i gofnodi data mwy penodol am gwynion ac ymholiadau i roi dealltwriaeth fanylach o feysydd i'w gwella.
- Yr angen i symleiddio adrodd am ganmoliaeth a chwynion ac annog rhannu straeon cadarnhaol.
- Cefnogi cyfathrebu amserol ac effeithiol gyda'r rhai sy'n defnyddio ein gwasanaethau.
- Sicrhau bod timau a gweithwyr unigol yn nodi eu negeseuon e-bost cyswllt, rhifau ffôn i gefnogi cyfathrebu priodol.

Hyrwyddo a Gwella Lles y Rhai yr Ydym yn eu Helpu



2 - Ymweld â chartrefi gofal preswyl.

Mae'r adran hon o'r adroddiad yn nodi ein perfformiad yn hyrwyddo a gwella'r agweddau allweddol ar les pobl ym Mro Morgannwg sydd angen gofal a chymorth, a gofalwyr sydd angen cymorth mewn perthynas â'r chwe safon lles.

Safon Lles 1: Gweithio gyda phobl i ddiffinio a chydgynhyrchu canlyniadau lles personol y mae pobl am eu cyflawni

Safon Lles 1: Cipolwg ar Berfformiad
Dywedodd 96% o bobl eu bod wedi derbyn y wybodaeth a'r cyngor cywir pan oedd angen hynny arnynt.
Dywedodd 99% o bobl eu bod wedi cael eu trin ag urddas a pharch.
Dywedodd 89% o bobl eu bod yn teimlo eu bod yn rhan o unrhyw benderfyniadau a wnaed ynghylch eu gofal.
Roedd 93% o bobl yn fodlon ar y gofal a'r cymorth a dderbyniwyd.
Cafodd 74% o asesiadau i blant eu cwblhau o fewn amserlenni.

Blaenoriaeth 1: Parhau i gyflwyno'r model 'Eich Dewis' wrth gydlynu â gwasanaethau eraill gan gynnwys adnabod darparwyr newydd fel rhan o'r dull graddol hwn.

Yn ystod 2022-23 rydym wedi:

- Trwy weithio mewn partneriaeth gref rhwng rheolwyr achos, tîm broceriaeth gofal cartref, darparwyr gofal cartref a phobl sy'n defnyddio gofal yn y cartref, rydym wedi cymryd camau breision wrth bontio i fod yn gyngor gofal cartref 'Eich Dewis' cyflawn, sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau.
- Hyd yn hyn, rydym wedi trosglwyddo un ar ddeg o asiantaethau gofal cartref i'ch dewis, sy'n golygu bod cyfanswm o 235 o ddinasyddion yn cael eu cefnogi gan 3700 awr o ofal a chymorth sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau gartref bob wythnos.

Prif Lwyddiannau:

- Cyflawnwyd canlyniadau cadarnhaol i unigolion sy'n defnyddio'r model Eich Dewis, er enghraifft:
 - Ymwelodd unigolyn â chaffi dementia sy'n cael ei redeg gan asiantaeth, penderfynodd ei fod eisiau mynd am dro gan ei fod yn ddiwrnod braf felly aeth y gofalwr â nhw i ganolfan siopa. Sylwodd y defnyddiwr ar farbwr a soniodd yr hoffai dorri ei wallt, ond gan fod angen apwyntiad arno, nid oedd yn gallu gwneud hyn y diwrnod hwnnw. Gweithiodd yr asiantaeth gyda'r defnyddiwr i ystwytho'r oriau a mynd ag ef i dorri ei wallt yr wythnos ganlynol.
 - Mae unigolyn yn mwynhau ymweld â'r sinema ac mae'r asiantaeth wedi gweithio gyda'r defnyddiwr i fancio oriau gan roi amser ychwanegol iddynt unwaith y mis i fynd â nhw i'r sinema.
 - Mae unigolyn wedi ymuno ag Eich Dewis ac mae'r asiantaeth wedi gweithio gydag ef i symud yr holl oriau o gwmpas i ddarparu ar gyfer ei ddymuniadau, gan fancio oriau yn ystod yr wythnos i gael ymweliad 2 awr, gyda gweddill yr ymweliadau'n cael eu lleihau i 30 munud. Mae hyn oherwydd bod y defnyddiwr wedi dweud bod ei fflat yn oer. Gyda'r ymweliadau hirach hyn gallant nawr fynd ag ef i ddefnyddio man cynnes.
 - Bu farw gŵr unigolyn ac roedd hi eisiau gwisg newydd ar gyfer yr angladd. Gyda'r asiantaeth yn gweithio gyda'r defnyddiwr ac yn ystwytho'r pecyn gofal roedden nhw'n gallu mynd â hi i Marks and Spencer i brynu rhywbeth newydd i'w wisgo.
 - Hoffai unigolyn gael mynediad i'r gymuned trwy ymweld â'r eglwys yn y boreau, mae hyn wedi bod yn anodd ei ddarparu oherwydd dim ond galwad

1/2awr sydd ganddi bob bore. Mae'r asiantaeth bellach yn gweithio gyda hi i symud ei horiau o gwmpas, er mwyn ei galluogi i ymweld â'r eglwys.

- Gweithio gyda darparwyr nad oeddent yn siŵr o fanteision y cynllun, a nhw'n sylweddoli'r effaith gadarnhaol ar eu staff a'r dinasyddion y maent yn eu cefnogi.
- Recriwtio i'r swydd Swyddog Eich Dewis i sicrhau cymorth amserol i ddarparwyr a chysoni cyllid Eich Dewis yn rheolaidd.

Heriau:

- Wrth i fwy o ddinasyddion drosglwyddo i'r Cynllun Eich Dewis, mae'r cymorth busnes sydd ei angen i sicrhau llwyddiant parhaus yn cynyddu.
- Mae argaeledd staff gofal cymdeithasol yn parhau i fod yn her i ddarparwyr gofal cartref, a allai danseilio llwyddiant y cynllun.

Blaenoriaeth 2: Gweithredu Blwyddyn 2 o'r Dull Seiliedig ar Gryfderau, 'Adeiladu ar Gryfderau', gan weithio ar y cyd â phlant a'u teuluoedd i wella canlyniadau a gwella lles

Yn ystod 2022-23 rydym wedi:

- Cychwyn grŵp 'Datblygu Gwasanaethau Gyda'n Gilydd' i sicrhau bod y teuluoedd rydym yn eu cefnogi yn cael eu cynnwys a'u gwerthfawrogi wrth ddatblygu gwasanaethau, gan adlewyrchu a modelu gwerthoedd 'Adeiladu ar Gryfderau'.
- Cyflwyno ystod o ffrydiau gwaith ar draws pob maes, gan ddatblygu iaith a rennir a nodau a rennir ar draws yr Adran.

Prif Lwyddiannau:

- Parhau i ddatblygu dealltwriaeth y Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc o Adeiladu ar Gryfderau fel fframwaith a dull, ac adeiladu naratif cyson ar draws pob tîm, gan alluogi gweithwyr i gysylltu hyn â'u hymarfer a gweithio i gefnogi plant, pobl ifanc a theuluoedd. Cydnabyddir y cynnydd gan AGC.

Heriau

- Gweithredu ac ymgorffori naratif cyson ar draws y gweithlu cyfan lle mae meysydd sydd yn heriol (recriwtio/cadw/salwch).

Safon Lles 2: Gweithio gyda phobl a phartneriaid i ddiogelu a hyrwyddo iechyd corfforol, meddyliol ac emosiynol pobl.

Safon Lles 2: Cïpolwg ar Berfformiad
Cynnydd o 14% yn nifer y pecynnau ailalluogi a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn.
Cwblhaodd 13% o oedolion gyfnod ailalluogi a lleihau eu pecyn gofal a chymorth ar ôl 6 mis.
Yn achos 84% o oedolion a gwblhaodd gyfnod ailalluogi, nid oedd angen unrhyw becyn gofal ar ôl 6 mis.
82 yw oedran cyfartalog oedolion sy'n mynd i gartrefi gofal preswyl.

Blaenoriaeth 3: Datblygu Gwasanaeth Cwmpo Integredig y Fro i ddarparu ymateb cyflym i bobl sydd wedi cwmpo a mynediad i ymyriadau arbenigol.

Yn ystod 2022-23 rydym wedi:

- Gweithredu Gwasanaeth Ymateb i Gwmpadau 24/7 sydd ar gael i holl breswylwyr y Fro drwy gynllun Teleofal y Fro.
- Comisiynwyd Ambiwllans Sant Ioan i ddarparu'r Gwasanaeth Ymateb i Gwmpadau 24/7, sy'n gysylltiedig â holl gwsmeriaid Teleofal y Fro.
- Ers i'r cynllun ddechrau ym mis Hydref 2022, rydym wedi:
 - Ymateb i dros 500 o gwmpadau ers i'r gwasanaeth gael ei sefydlu hyd at ddiwedd mis Mawrth 2023.
 - Gydag amser ymateb ar gyfartaledd o'r hysbysiad cychwynnol i'r ymatebydd yn cyrraedd y lleoliad o 25 munud a 29 eiliad.
 - Cynyddu nifer cwsmeriaid Teleofal o dros 300, yn cynnwys pobl oedd yn talu yn flaenorol am wasanaeth Teleofal preifat yn newid i gynllun Teleofal y Fro.

Prif Lwyddiannau:

- Mae Gwasanaeth Ymateb i Gwmpadau 24/7 Teleofal wedi datblygu cysylltiadau uniongyrchol â'r Tîm Cwmpadau Ardal i sicrhau bod pobl y mae'r Gwasanaeth yn ymateb iddynt yn cael eu cyfeirio'n gyflym am asesiad pellach ac ymyrraeth therapiwtig fel sy'n briodol i leihau'r risg o gwmpadau pellach.
- Mae'r Gwasanaeth Cwmpadau wedi lleihau nifer y bobl sy'n mynychu'r adran Damweiniau ac Achosion Brys o 440 gydag amcangyfrif o arbediad o £547,026 i'r bwrdd iechyd, gan ddefnyddio cyfrifiadau TEC Cymru.

Heriau:

- Rhannu gwybodaeth yn amserol o'r Gwasanaeth Ymatebwyr 24/7 Teleofal i'r Gwasanaeth Cwmpadau Ardal er mwyn galluogi dilyniant cyflym yn dilyn cwmpo. Mae'r her o rannu gwybodaeth o ansawdd mewn modd amserol yn cael ei datrys trwy greu a gweithredu

cymhwysiad symudol fydd yn galluogi Ymatebwyr i greu ac anfon cofnodion mewn amser real.

- Mae gwerth y Gwasanaeth Ymateb i Gwypmipiadau 24/7 bellach wedi'i hen sefydlu, ond dim ond ar gyfer cynllun peilot blwyddyn y mae'r gwasanaeth yn cael ei ariannu. Yr her ar gyfer y flwyddyn nesaf yw sicrhau cyllid parhaus i'r gwasanaeth.

Blaenoriaeth 4: Symud ymlaen â gwaith y 'Model Cynghreiriaid' i ddarparu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol mwy integredig.

Nod Cynghrair y Fro yw integreiddio gwasanaethau iechyd a lles ar draws Cyngor Bro Morgannwg a Bwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro i ddarparu mynediad di-dor i gymorth iechyd, gofal cymdeithasol a lles i bob dinesydd sy'n oedolion yn y Fro.

Yn ystod 2022-23 rydym wedi:

- Mae Cabinet a Phwyllgor Craffu Byw'n Iach a Gofal Cymdeithasol Bro Morgannwg a Bwrdd BIP Caerdydd a'r Fro wedi cytuno, mewn egwyddor, i fynd ati i lunio Cynghrair y Fro.
- Mae strwythur llywodraethu Cynghrair y Fro wedi cael ei ddatblygu a'i gytuno i alluogi ffocws ar dri maes peilot i'w datblygu:
 - Gwasanaeth Adnoddau Cymunedol y Fro
 - Gwasanaeth Materion Lles
 - Contractau Trydydd Sector

Prif Lwyddiannau:

- Recriwtio Rheolwr Ardal y Fro yn llwyddiannus.
- Ailsefydlu Grŵp Cyflawni Cynghrair y Fro i wella cyfathrebu a llywodraethu lleol.
- Mae'r Gwasanaeth Materion Lles yn datblygu protocolau gweithio i rannu gwybodaeth ac arbenigedd er mwyn sicrhau bod ymatebion iechyd, gofal cymdeithasol a lles yn cael eu darparu'n ddi-dor i bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth.

Heriau:

- Mae blaenoriaethau cenedlaethol ar gyfer Byrddau Iechyd Lleol wedi ailgyfeirio cymorth strategol ar gyfer Cynghrair y Fro ar ôl y pandemig sydd wedi arafu cynnydd integreiddio a blaenoriaethau'r Gynghrair.



Preswlydd Cartref Gofal a staff yn mwynhau prosiect gardd newydd

Safon Lles 3: Rhoi camau ar waith i amddiffyn a diogelu pobl rhag camdriniaeth, esgeulustod neu niwed

Safon Lles 3: Cipolwg ar Berfformiad
Roedd 0.03% yn ailgofrestriadau plant ar Gofrestr Amddiffyn Plant yr awdurdod lleol.
262 o ddiwrnodau yw nifer cyfartalog y diwrnodau a dreuliodd ar y Gofrestr Amddiffyn Plant yn ystod y flwyddyn.
69% o ymholiadau amddiffyn oedolion wedi eu cwblhau o fewn terfynau amser statudol.
Dywedodd 94% o bobl eu bod yn teimlo'n ddiogel.

Blaenoriaeth 5: Ymgorffori'r Gweithdrefnau Uwchgyfeirio Pryderon newydd.

Yn ystod 2022-23 rydym wedi:

- Cytuno ar y ddogfen derfynol 'Gwasanaethau o Ansawdd: Darparu'r Hyn sy'n Bwysig' sy'n rhoi manylion y prosesau uwchgyfeirio pryderon ar gyfer ein rhanbarth.
- Cynnal Cyfarfodydd Rheoli Ansawdd ar y Cyd misol er mwyn sicrhau rhannu gwybodaeth a dull rhanbarthol o ymdrin â phryderon ansawdd yn ymwneud â darparwyr.
- Cynnal sesiynau gwybodaeth gyda darparwyr er mwyn iddynt ddeall y newidiadau i'r broses a darparu cyfleoedd ar gyfer adborth.

Prif Lwyddiannau:

- Mae partneriaid rhanbarthol yn defnyddio'r weithdrefn newydd i sicrhau cysondeb wrth ddelio â materion perfformiad darparwyr.
- Ennill cefnogaeth darparwyr wrth ddefnyddio'r weithdrefn.

Heriau:

- Sicrhau bod y weithdrefn yn cael ei hadolygu ac yn addas at y diben, gydag unrhyw wersi a ddysgwyd yn cael eu hadlewyrchu yn y ddogfen.

Blaenoriaeth 6: Gweithio gyda phartneriaid i weithredu Cynllun y Gwasanaeth Troseddau Ieuencid (GTI) i wella canlyniadau pobl ifanc.

Yn ystod 2022-23 rydym wedi:

- Canolbwyntio ar ddatblygu cyrhaeddiad cymorth atal a dargyfeirio ymhellach er mwyn hyrwyddo cyfleoedd bywyd diogel, hapus ac iach plant a phobl ifanc.
- Ailsefydlu cysylltiad wyneb yn wyneb â phlant, pobl ifanc a'u teuluoedd wrth i ni ddod allan o'r pandemig.
- Parhau i ymgorffori'r defnydd o gyfathrebu digidol a hyrwyddwyd yn ystod y pandemig i gynnal cysylltiadau mwy effeithlon â gweithwyr proffesiynol a phartneriaid eraill, yn ogystal â theuluoedd, i hyrwyddo mwy o argaeledd.
- Dechrau'r broses o ddod â'r swydd benodol ar gyfer gwaith dargyfeirio yn fewnol.
- Parhau i ymgorffori'r dull sy'n seiliedig ar Drawma mewn ymarfer, gan ganiatáu mwy o gymorth i'r rhai sy'n profi trawma ac sydd wedi cael Profiadau Niweidiol yn ystod Plentynod i fyw bywydau mwy diogel, di-drosedd a chadarnhaol. Mae hyn yn cynnwys nodi dau ymarferydd arweiniol yn y dull Rheoli Achosion Uwch, sy'n cynnwys ymyrraeth sy'n seiliedig ar drawma gyda chymorth gan Seicolegydd Plant.
- Yn dilyn sgôr Arolygu HMIP 'Da', mae'r GTI wedi datblygu rôl fwy gweithredol i'r Bwrdd Rheoli, yn enwedig wrth ddatblygu'r ffrydiau gwaith a nodwyd yn yr adroddiad arolygu.
- Parhau i gyflawni gwaith gwneud iawn yn y gymuned. Mae hyn wedi cynnwys gweithio gyda phlant a phobl ifanc yn paratoi'r ardd a thyfu llysiau, gyda chynlluniau i roi cynnyrch yn lleol.
- Cynyddu'r defnydd o'r gegin GTI i helpu i ddatblygu sgiliau bywyd, hyrwyddo perthnasoedd cadarnhaol ac fel cyfrwng ar gyfer gwaith ymyrraeth.
- Parhau i weithio gyda dioddefwyr troseddau drwy swyddogion Dioddefwyr y GTI, gan gynnwys cefnogi cyfranogiad yn y broses adferol.

- Gweithio gyda phartneriaid i ddarparu gweithgareddau i blant a phobl ifanc yn ystod gwyliau'r ysgol.

Prif Lwyddiannau:

- Recriwtiwyd ymarferydd gan ddefnyddio'r cyllid 'Turnaround' i gynyddu'r cymorth dargyfeiriol i bobl ifanc a nodwyd gan yr Heddlu.
- Mwy o wybodaeth yn cael ei rhannu rhwng yr Heddlu a'r GTI i hyrwyddo cymorth i bobl ifanc.
- Mae plant a phobl ifanc yn elwa o fwy o gymorth CAMHS drwy Nyrs CAMHS Arbenigol ydag amser penodol i'r rhai sy'n derbyn cymorth gan y GTI.
- Cynyddu ymhellach canran y plant a'r bobl ifanc sy'n elwa o waith ataliol a dargyfeiriol, gan gynnwys trwy 'Turnaround'. Mae 94% o'r holl gymorth wedi bod trwy waith ataliol/dargyfeirio, gyda chynnydd o 32% o blant yn derbyn y gymorth hwn. Mae hyn yn helpu i hyrwyddo'r canlyniadau gorau posibl i blant fyw bywydau hapus, iach a chadarnhaol.
- Parhaodd i leihau nifer y plant sy'n mynd i mewn i'r System Cyfiawnder Ieuencid ffurfiol yn sylweddol, gyda gostyngiad o 36% yn nifer y Newydd-ddyfodiaid (plant sy'n cael Rhybudd Ieuencid neu ganlyniad uwch am y tro cyntaf).
- Gostyngiad o 37% mewn aildroseddu.

Heriau:

- Gweithio heb Swyddog Rhianta dros y flwyddyn ddiwethaf - mae cynlluniau ar y gweill i recriwtio i'r swydd wag hon.
- Mae'r Gwasanaeth Atal yn gweithio gyda llai o bersonél am gyfnodau sylweddol o'r flwyddyn, tra'n cynyddu'r cymorth Atal / Dargyfeirio.

REASONS BEHIND WHAT WE DO

Reparation is a structured activity which is organised by the Youth Offending Service with the primary aim of repairing the effects of crime and harm on victims and communities.

It allows a young person aged between 10 - 18 years, to make a positive contribution to their communities and repair the harm that's been caused.

Reparation is a fundamental part of most Court orders imposed by a Youth Court and a key element of every out of Court disposal. Whenever possible reparation should be based on the victims wishes, but we offer and undertake a variety of work all over the Vale of Glamorgan.

WHAT REPARATION WE OFFER

Environmental reparation, this includes beach cleaning and litter picking throughout the vale of Glamorgan.

Gardening Project, which takes place in the YOS garden, also clearing overgrown areas throughout the Vale of Glamorgan.

Craft project, Making cards and other small craft items.

Graffiti removal and painting, throughout the Vale of Glamorgan.




Gwasanaeth Troseddau Ieuencid – enghreifftiau o Wneud Iawn

Safon Lles 4: Annog a chefnogi pobl i ddysgu, datblygu a chymryd rhan mewn cymdeithas.

Safon Lles 4: Cipolwg ar Berfformiad
Nododd 69% o bobl ifanc eu bod wedi derbyn cyngor, help a chymorth i'w paratoi ar gyfer bywyd fel oedolyn
Nododd 90% o bobl eu bod yn gallu gwneud yr hyn sy'n bwysig iddynt.
Nododd 93% o bobl eu bod yn fodlon ar eu rhwydweithiau cymdeithasol.
Profodd 8% o Blant sy'n Derbyn Gofal yn ystod y flwyddyn (hyd at 31 Mawrth) un neu fwy o newidiadau yn yr ysgol yn ystod cyfnodau o dderbyn gofal nad oeddent o ganlyniad i drefniadau pontio.
Nododd 89% o bobl eu bod yn teimlo'n rhan o'u cymuned.

Blaenoriaeth 7: Adolygu a gwella'r wybodaeth am DEWIS a'r wefan ar gyfer y cyhoedd i sicrhau bod gwybodaeth ddiogelu ar gael yn hawdd



Yn ystod 2022-23 rydym wedi:

- Adolygu'r wybodaeth ar y wefan ar gyfer Gofal Cymdeithasol i Oedolion, gan sicrhau bod y cyhoedd yn gallu cael gafael ar wybodaeth am ddiogelu ac i gefnogi eu lles [Gwasanaethau Oedolion \(valeofglamorgan.gov.uk\)](http://www.valeofglamorgan.gov.uk)
- Gweithio gyda'r Tîm Byw'n Iach i greu Rhaglen Gweithgareddau Gwyliau Haf o Hwyl. Cynhyrchwyd hon ar-lein ym mis Mehefin 2022 ac roedd yn cynnwys gwybodaeth am fwy na 147 o weithgareddau am ddim i blant a phobl ifanc 0-25 oed yn ystod gwyliau haf yr ysgol a thu hwnt. Ariannwyd y cynllun gan Lywodraeth Cymru a'i nod oedd cefnogi lles cymdeithasol, meddyliol, a chorfforol plant a phobl ifanc a chefnogi teuluoedd gyda chostau gweithgareddau yn ystod gwyliau'r haf. Cafodd y rhaglen ei gweld dros 28,000 o weithiau.
- Lansiodd y Cynnig Gofal Plant 30 awr ar gyfer Gwasanaeth Digidol Cenedlaethol newydd Cymru ym mis Ionawr 2023. Cafodd tudalennau gwefan Cynnig Gofal Plant y Fro eu hailwampio er mwyn sicrhau y gallai rhieni wneud cais am gyllid gofal plant ar gyfer eu plentyn 3-4 oed gan ddefnyddio'r gwasanaeth newydd: www.valeofglamorgan.gov.uk/childcareoffer

- Dechreuwyd y rhaglen hyfforddi i sicrhau bod staff trwy'r gyfarwyddiaeth yn gallu diweddarau gwybodaeth am eu gwasanaeth ar Staffnet a'r wefan. Bydd gweithgor a chynllun yn dilyn.
- Cafodd gwefan Dewis Cymru gyhoeddiad newydd yn 2022-23 yn cynnwys nifer o ddiweddariadau i wefan Iechyd a Lles Craidd Dewis Cymru a hefyd modiwl swyddi gwag Cartrefi Gofal. Roedd y cyhoeddiad hwn yn cynnwys nifer o welliannau i ymarferoldeb chwilio'r wefan, gan ei gwneud yn llawer haws i ddinasyddion a gweithwyr proffesiynol ddod o hyd i'r gwasanaeth neu'r wybodaeth benodol y maent yn chwilio amdani.

Prif Lwyddiannau:

- Mae gwybodaeth am ddiogelu yn hygyrch ar ein gwefan sydd ar gael i'r cyhoedd.
- Cafodd gwasanaethau iechyd a lles ym Mro Morgannwg eu gweld yn fanwl ar Dewis Cymru dros chwarter miliwn o weithiau yn 2022/23 (cyfanswm o 253,194 i gyd), mae hyn i fyny 26.6% ers 2021-22.
- Mae nifer yr adnoddau Iechyd a Lles ym Mro Morgannwg a gyhoeddwyd ar Dewis Cymru wedi cynyddu 10% ers 2021-22. Mae hyn yn galonogol yn enwedig wrth i nifer o wasanaethau roi'r gorau i gael eu cynnal yn dilyn y pandemig ac felly wedi dod i ben ar Dewis Cymru.

Heriau:

- Sicrhau bod digon o staff wedi'u hyfforddi i ddiweddarau'r wefan a Staffnet, fel bod gwybodaeth yn gywir, yn cael ei monitro'n barhaus ac nad oes bylchau mewn gwybodaeth.
- Bu'n rhaid creu Rhaglen Gweithgareddau Gwyliau Haf o Hwyl yn gyflym iawn. Cyflwynodd hyn sawl her gan gynnwys mynd â staff i ffwrdd o'u rolau o ddydd i ddydd mewn tîm bach iawn. Ni allai rhai gwasanaethau fodloni'r dyddiad cau a bu'n rhaid i'r tîm ddiweddarau'r rhaglen yn barhaus gyda newidiadau a gwybodaeth newydd.
- Mae symud i system ddigidol genedlaethol newydd y Cynnig Gofal Plant wedi bod yn ddwys iawn o ran adnoddau ac mae'r tîm wedi gorfod cyflwyno system teleffoni cenedlaethol newydd, yn ogystal â chynnal llinell gymorth y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd. Roedd problemau cysylltiad TGCh am sawl wythnos, ond mae'r rhain bellach wedi'u datrys.
- Mae diweddarau ac ailgyhoeddi adnoddau Dewis Cymru yn dilyn pandemig Covid-19 wedi bod yn llwyth gwaith ychwanegol. Nid oedd rhai gwasanaethau yn gweithredu mwyach, ac roedd gan lawer newidiadau i'r ffordd y maent yn darparu'r gwasanaeth. Roedd hyn yn golygu bod nifer uwch o adnoddau ar Dewis Cymru yn dod i ben a llawer angen diweddariadau.
- Er bod darparwyr Gwasanaeth sy'n newydd i Dewis Cymru yn aml yn awyddus iawn i ychwanegu eu gwybodaeth at y cyfeiriadur gwasanaethau iechyd a lles, mae wedi bod yn

heriol cael darparwyr gwasanaethau i ychwanegu eu gwybodaeth a sefydlu proffil eu hunain. Fel tîm, rydym wedi ceisio gwneud y broses hon mor syml â phosibl a byddwn bob amser yn rhoi cymorth ac arweiniad, ond yn aml mae angen cryn dipyn o anogaeth a chymorth a all gymryd llawer o amser.

Blaenoriaeth 8: Cwblhau adolygiad o elfennau allweddol gwaith papur y Gwasanaeth Plant a Phobl Ifanc er mwyn sicrhau ei fod yn hygyrch ac yn addas i blant (gan gynnwys asesiadau a Chynlluniau Gofal)

Yn ystod 2022-23 rydym wedi:

- Dechrau mapio prosesau ar draws yr Adran i sicrhau bod gwaith papur yn symlach ac yn hygyrch.
- Parhau i weithio tuag at offer sicrwydd ansawdd sy'n cefnogi arfer gorau ac yn darparu 'cyfyngu sefydliadol' i'r gweithlu.
- Grŵp gorchwyl a gorffen bob pythefnos wedi ei sefydlu i symud y gwaith hwn yn ei flaen yn gyflym.
- Cyflwynwyd nifer o ffurflenni newydd i hwyluso cofnodi ac adrodd data.

Prif Lwyddiannau:

- Crëwyd 'Egwyddorion Cofnodi' penodol gyda'r Tîm Rheoli Adrannol i sicrhau cysondeb yn y disgwyliadau o ran cofnodi, gyda'r plentyn a'r teulu yn flaenllaw mewn unrhyw waith papur.

Heriau:

- Datblygu systemau ar draws y Gyfarwyddiaeth (data perfformiad a gwaith papur symlach) sy'n cefnogi'r dull gweithredu.

Safon Lles 5: Cefnogi pobl i ddatblygu a chynnal perthnasoedd domestig, teuluol a phersonol iach yn ddiogel

Safon Lles 5: Cipolwg ar Berfformiad
Cafodd 88% o blant eu cefnogi i barhau i fyw gyda'u teulu yn ystod y flwyddyn.
Cafodd 19% o blant sy'n derbyn gofal eu dychwelyd adref o ofal yn ystod y flwyddyn.
Dywedodd 91% o ofalwyr eu bod yn teimlo eu bod yn rhan o'r gwaith o gynllunio'r cynllun gofal a chymorth ar gyfer y person y maent yn gofalu amdano.
Roedd 8% o'r plant sy'n derbyn gofal ar 31 Mawrth wedi bod mewn o leiaf tri lleoliad yn ystod y flwyddyn.

Blaenoriaeth 9: Cyflwyno a gweithredu'r strategaeth ranbarthol ar gyfer gofalwyr di-dâl a gwasanaethau cysylltiedig.

Yn ystod 2022-23 rydym wedi:

- Lansio'r Siarter Gofalwyr Di-dâl Rhanbarthol.
- Wedi dechrau datblygu'r cynllun blaenoriaeth gweithredu a chyflawni i gefnogi ymrwymadau'r siarter.

Prif Lwyddiannau:

- Datblygu siarter gofalwyr di-dâl sy'n amlinellu ein hymrwymadau i ofalwyr ar draws y rhanbarth.
- Cefnogi nodi camau blaenoriaeth ar gyfer gofalwyr di-dâl o fewn yr asesiad anghenion y boblogaeth a'r cynllun ardal.
- Cryfhau tîm Gwasanaethau a Datblygu Gofalwyr Di-dâl Bro Morgannwg drwy greu swydd rheolwr gwasanaeth a datblygu newydd.
- Cyflwyno digwyddiadau ar gyfer gofalwyr di-dâl gydag amrywiaeth o asiantaethau cymorth a oedd hefyd yn cwmpasu sesiwn hawliau lles, hawl i fudd-daliadau.
- Adolygu ein llwybrau ar gyfer asesu gofalwyr ifanc a rhieni sy'n ofalwyr er mwyn sicrhau gwybodaeth, cyngor a chymorth amserol.
- Darparu'r gronfa gofalwyr di-dâl i fwy na 1200 ar draws Bro Morgannwg.
- Darparu cymorth seibiant amgen trwy ddiwrnodau allan a chynlluniau talebau i ofalwyr di-dâl.

Heriau:

- Darparu gwasanaethau yn amserol sy'n ystyried anghenion unigol gofalwyr di-dâl.
- Y gallu i ddarparu asesiadau gofalwyr mewn modd amserol.
- Cydlynu amrywiaeth o wasanaethau sydd ar gael i ofalwyr di-dâl.
- Yr angen parhaus i sicrhau bod gwybodaeth a chyngor ar gael i gefnogi adnabod gofalwyr di-dâl.

Blaenoriaeth 10: Gweithio gyda Maethu Cymru i gynyddu nifer ac amrywiaeth y Gofalwyr Maeth ym Mro Morgannwg

Yn ystod 2022-23 rydym wedi:

- Cymeradwyo 3 gofalwr maeth prif ffrwd.

- Cymeradwyo 19 o ofalwyr sy'n berthnasau sy'n darparu dewisiadau teuluol amgen i blant sy'n derbyn gofal.

Prif Lwyddiannau:

- Cynyddu'r cyfle i blant sy'n derbyn gofal fyw o fewn trefniadau gyda pherthnasau, gan hyrwyddo gofal teuluol a lleihau gofynion ychwanegol am ddarpariaeth prif ffrwd.
- Ystyried ffyrdd newydd o gynyddu nifer yr ymholiadau i'r gwasanaeth. Roedd hyn yn cynnwys anfon taflenni a anfonwyd i bob cartref ar draws y Fro gyda biliau'r Dreth Gyngor, gan ysgogi ymateb cadarnhaol.

Heriau:

- Bu gostyngiad yn y niferoedd prif ffrwd sy'n cael eu cymeradwyo eleni. Mae hyn yn rhannol gysylltiedig â gostyngiad mewn ymholiadau, sy'n ymddangos i fod yn duedd genedlaethol.
- Mae llai o gymeradwyo yn heriol yng nghyd-destun niferoedd cynyddol o blant sy'n derbyn gofal a'r angen i ehangu ein cronfa o ofalwyr maeth, sy'n parhau i fod yn flaenoriaeth i'r gwasanaeth.
- Rydym yn parhau i gael nifer o ofalwyr maeth yn gadael y gwasanaeth oherwydd oedran a chapasiti (poblogaeth gofalwyr maeth sy'n heneiddio).

Safon Lles 6: Gweithio gyda phobl a'u cefnogi i wella eu lles economaidd, i gymdeithasu'n rheolaidd ac i fyw mewn llety addas sy'n bodloni eu hanghenion.

Safon Lles 6: Cipolwg ar Berfformiad
Cwblhaodd 11 o bobl sy'n gadael gofal o leiaf 3 mis yn olynol o addysg, cyflogaeth, neu hyfforddiant yn y 12 mis ar ôl gadael gofal.
Cwblhaodd 4 o bobl sy'n gadael gofal o leiaf 3 mis yn olynol o addysg, cyflogaeth, neu hyfforddiant yn y 13-24 mis ar ôl gadael gofal.
Dywedodd 100% o bobl eu bod yn byw yn y cartref cywir iddyn nhw.
Dywedodd 99% o bobl eu bod wedi derbyn gofal a chymorth trwy'r iaith o'u dewis.

Blaenoriaeth 11: Ehangu datblygiad tai clyfar ac adolygu eu canlyniadau o ran effaith i ddinasyddion wrth gefnogi byw'n annibynnol a gwella eu lles.

Yn ystod 2022-23 rydym wedi:

- Mae dau dŷ clyfar yn gwbl weithredol. Gellir gweld fideo o un o'n preswylwyr yn y tŷ clyfar yma: <https://youtu.be/odA667NwRfM>

- Datblygu cynlluniau gyda Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig ar gyfer datblygu trydydd tŷ clyfar i fod yn barod yn nhymer yr hydref 2023.
- Datblygu cynlluniau ar gyfer adeiladu chwe fflat clyfar newydd i'w cwblhau 2024-2025.
- Sicrhau arian y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol ar gyfer Rheolwr Prosiect Gwella Busnes i gynorthwyo i roi camau gweithredu ar waith a nodwyd yn y Strategaeth Comisiynu ar y Cyd i Oedolion ag Anabledd Dysgu 2019-2024, gan ganolbwyntio ar ddatblygu byw â chymorth.

Prif Lwyddiannau:

- Mwy o hyder ac ansawdd bywyd gwell wrth i unigolion ddatblygu eu lefelau annibyniaeth er enghraifft, gall unigolion nawr wneud y canlynol:
 - Gofyn i Alexa sut beth yw'r tywydd am y diwrnod ac yna dewis dillad sy'n addas ar gyfer y tywydd.
 - Defnyddio Alexa i ffonio staff os oes angen cymorth a bydd yn gosod nodiadau atgoffa i staff ar gyfer meddyginiaeth.
 - Defnyddio Alexa i agor y bleinds, a diffodd goleuadau a'r teledu cyn mynd i'r gwely.
 - Defnyddio Alexa i osod larymau ac awgrymiadau i gwblhau tasgau.
- Maent wedi datblygu sgiliau byw'n annibynnol fel coginio, golchi dillad a hunanofal fydd yn eu galluogi i symud ymlaen i fodel craidd a chlwstwr gyda chymorth wedi'i dargedu.
- Datblygu eu sgiliau cymdeithasol trwy ymuno â grwpiau cymunedol lleol.
- Staff sy'n cefnogi unigolion i gynyddu eu gwybodaeth a'u sgiliau mewn technoleg a'r manteision y gall hyn eu cael i bobl ag anghenion cymorth.
- Gwnaed ffilm yn dangos galluoedd unigolion i ddefnyddio'r dechnoleg sydd ar gael a'r gwahaniaeth y mae hyn wedi'i wneud i'w bywydau.

Heriau:

- Sicrhau bod data cadarn ar gael i lywio cynllunio yn y dyfodol.
- Cyflawni prosiectau newydd o fewn y gyllideb a'r amserlenni a ddyrennir
- Sicrhau bod technoleg a ddarperir yn gyfredol ac yn gynaliadwy.

Datblygiadau'r Gweithlu 2022/23

Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc:

- Rydym wedi buddsoddi adnoddau i gefnogi lefel gymesur o ailstrwythuro ar draws ein timau craidd, yn benodol creu Tîm Derbyn pwrpasol, dau Dîm Cymorth i Deuluoedd a Thîm 14 Plus, gyda chefnogaeth tri chylch gorchwyl Rheolwr Gweithredol clir.
- Parhau i ddefnyddio dulliau traddodiadol ac arloesol i gefnogi recriwtio i rolau allweddol, gan gynnwys hysbysebu pwrpasol a recriwtio gweithwyr cymdeithasol rhyngwladol. Cynnal ein hymrwymiad i 'dyfu ein Gweithwyr Cymdeithasol ein hunain' drwy greu llwybrau datblygu clir i'r rhai sydd mewn rolau heb gymhwyso. Cynnal ymrwymiad i les ar draws pob tîm a hyrwyddo diwylliant cadarnhaol, gan gefnogi cadw ein staff.

Rheoli Adnoddau a Diogelu:

- Parhau i wella recriwtio staff gofal drwy'r rhaglen recriwtio llwybr cyflym i ofal i annog a hyfforddi dechreuwyr newydd, fel eu bod yn dod yn fwy parod yn gyflymach.
- Mae'r cynllun wedi bod yn llwyddiannus a bydd yn parhau y flwyddyn nesaf.
- Gyda diwedd Rhyddid i Symud a chyflwyno'r llwybr Gweithwyr Medrus, ni allai gweithwyr yr UE a'r tu allan i'r UE ddod i mewn i'r DU gyda'r pwrpas penodol o weithio fel gweithiwr gofal, gan nad oedd y swydd yn gymwys. Newidiodd hyn ym mis Chwefror 2022 a gall gweithwyr gofal, yn amodol ar Nawdd, ddod i mewn i'r DU ar y Fisa Gweithiwr Medrus neu weithio'n rhan-amser ar Fisa Myfyriwr neu Fisa Dibynnol. Mae Cyngor Bro Morgannwg yn Noddwr wedi ei Gymeradwyo gan y Swyddfa Gartref ac mae'r cartrefi gofal wedi gallu recriwtio sawl gwladolyn tramor i swyddi gwag hirsefydlog, gan leihau'r pwysau ar ein gweithwyr a'n dibyniaeth ar staff asiantaeth drud.

Gwasanaethau Oedolion:

- Er mwyn mynd i'r afael â'r heriau capasiti sy'n ymwneud â Gweithwyr Proffesiynol Iechyd Meddwl Cymeradwy, rydym wedi nodi unigolion i ymgymryd â hyfforddiant Gweithwyr Proffesiynol Iechyd Meddwl Cymeradwy i gefnogi cadw a chynllunio olyniaeth.

Blaenoriaethau'r Gweithlu 2023/24

- Rydym wedi gwneud nifer o benodiadau rheoli newydd a bydd angen i ni sicrhau ein bod yn darparu sesiynau sefydlu cynhwysfawr ar eu cyfer i gyd.
- Rydym yn cynnig y cyfle i lawer mwy o staff ymgymryd â hyfforddiant i'w paratoi i fod yn weithwyr cymdeithasol.

Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc:

- Ymgorffori ein strwythur newydd sy'n cefnogi timau craidd i gyflawni yn erbyn eu cylch gwaith penodol.
- Sicrhau sefydlogrwydd ar draws ein timau, gan ganolbwyntio'n gyfartal ar recriwtio a chadw.

Rheoli Adnoddau a Diogelu:

- Datblygu'r cynllun gweithredu ar gyfer Gofal Cartref.
- Parhau i ddatblygu ein tîm hyfforddi lleol a hwyluso staff gofal i ymgymryd â'r hyfforddiant angenrheidiol.

Gwasanaethau Oedolion:

- Bydd cryfhau'r Gwasanaeth Rhyddhau Integredig yn galluogi mwy o wydnwch i brinder dros dro ac yn caniatáu mwy o ffocws ar ymyriadau o ansawdd.

Adnoddau Ariannol

Mae Cyllideb y Gwasanaethau Cymdeithasol yn cael ei monitro'n ofalus trwy gydol y flwyddyn. Mae'r gyllideb yn cael ei monitro'n drylwyr ac yn effeithiol trwy Fwrdd Rhaglen y Gyllideb sy'n darparu lefel uchel o oruchwyliaeth o'r ffordd yr ydym yn rheoli ein hadnoddau ariannol. Mae monitro rheolaidd yn ein galluogi i gymryd camau gweithredu pan fo meysydd sy'n peri pryder yn dod i'r amlwg.

Mae adroddiadau ymrwymiad manwl yn cael eu hadrodd i'r grŵp hwn, sy'n bwrw ymlaen â'r prosiect am flwyddyn gyfan. Mae gennym oruchwyliaeth dda o'r adroddiad hwn lle mae unrhyw newidiadau/datblygiadau yn cael eu hystyried bob mis. Mae monitro ymrwymiad yn cynnwys dadansoddiad o dueddiadau i nodi ble mae gwasanaethau galw yn newid ac o ran newidiadau yn y defnydd o fathau gwahanol o ofal cymdeithasol.

Mae monitro ymrwymiad hefyd yn llywio pwysau costau, sy'n cael eu hadolygu'n barhaus. Mae gwaith Bwrdd Rhaglen y Gyllideb hefyd yn derbyn diweddariadau rheolaidd ar y cynnydd sy'n cael ei wneud yn erbyn targedau arbedion. Ynghyd â hyn, ystyrir cynlluniau arbedion unigol a phwysau cost gan Gabinet y Cyngor hefyd ar adegau priodol trwy gydol y flwyddyn. Mae'r broses hon wedi cydnabod yr heriau yn ein sector yn enwedig gyda gofal cartref ac wedi galluogi lefel sylweddol o gynnydd mewn cyllid yn y gobaith y bydd hyn yn arwain at welliannau cyflog fydd yn denu staff.

Mae cynllunio cyllideb yn cyd-fynd â'n Rhaglen Ail-lunio (rhaglen wella) ac mae ein camau gweithredu Cynllun Gwasanaeth yn cyd-fynd â'r rhaglen Ail-lunio hon. Mae'r rhyngwynebau hyn yn ein galluogi i gydb lethu ein hymrwymadau yn effeithiol o ran cyflawni ein blaenoriaethau allweddol a'n gwariant cyllidebol.

Mae Gwasanaethau Cymdeithasol Bro Morgannwg hefyd yn parhau i elwa o arian grant i helpu i gyflawni ffrydiau gwaith rhanbarthol drwy ystod eang o ffrydiau ariannu gan Lywodraeth Cymru.

Mae'r diagram isod yn dangos sut caiff y gyllideb ei defnyddio ar draws tair adran y Gwasanaethau Cymdeithasol.

<p>Cyllideb Diwedd Blwyddyn y Gwasanaethau Cymdeithasol 2022/23</p> <p>• £80,742,000</p>	<p>Cyfanswm pecynnau gofal cymunedol £42,416,587</p> <p>Gofal Cartref Oedolion £22,362,431</p> <p>Oedolion Cartrefi Gofal a Gomisiynir £17,482,478</p> <p>Gofal cymunedol arall i oedolion £2,571,678</p>	<p>Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc £18,536,000</p> <p>GTI £724,000</p> <p>Lleoliadau Maethu Allanol £3,298,012</p> <p>Lleoliadau Allanol £2,417,227</p> <p>Maethu Mewnol £2,460,239</p> <p>Gwasanaethau Plant Eraill £9,636,122</p>	<p>Oedolion a Rheoli Adnoddau £19,065,413</p> <p>Gwasanaeth Adnoddau Cymunedol y Fro £1,872,812</p> <p>Cartrefi Gofal sy'n eiddo i'r Cyngor £3,072,754</p> <p>Gofal Cymdeithasol gan gynnwys Diogelu £14,119,847</p>
--	---	--	--

Sylwer: Sylwer bod yr holl ffigyrau yn net o unrhyw incwm grant wedi'i gyllidebu.

Ein gwaith partneriaeth, Arweinyddiaeth Corfforaethol, Llywodraethu ac Atebolrwydd.

Rydym yn parhau i fod yn ymrwymedig i gydweithio ar lefel leol a rhanbarthol er mwyn gwella ansawdd y gofal a'r cymorth a roddwn i'n dinasyddion ac i'n cefnogi i ddarparu gwasanaethau'n fwy effeithiol.

Mae gweithio mewn partneriaeth yn parhau i fod yn nodwedd ganolog wrth fynd i'r afael â rhai o'r heriau hyn a bydd yn ein galluogi i ailddiffinio gwasanaethau i'r tymor hwy gyda ffocws ataliol, lle mae dylunio gwasanaethau'n canolbwyntio ar integreiddio a chyfranogiad defnyddwyr gwasanaeth a'i gyflwyno lle bo hynny'n bosibl trwy ddulliau cydweithredol.

Arweinyddiaeth a Llywodraethu

Mae Deddf Llesiant Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru) 2014 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) wedi newid y ffordd yr ydym yn gweld, cynllunio a darparu ein gwasanaethau ar

gyfer ein dinasyddion. Mae llawer mwy o ffocws erbyn hyn ar ddarparu dull sy'n canolbwyntio ar y dinesydd o weithio sy'n gwella lles ein dinasyddion.

Nid dim ond yr angen i gyflawni swyddogaethau statudol fel y'u diffinnir gan ddeddfwriaeth sy'n sbarduno'r Gwasanaethau Cymdeithasol, ond yr awydd i archwilio cyfleoedd i symleiddio ac integreiddio ein gwasanaethau ymhellach fel y gallwn wella ansawdd y gofal a'r cymorth a roddwn yn barhaus ac yn y pen draw y canlyniadau i'n dinasyddion.

Cynllun Corfforaethol 2020-25 yw dogfen bolisi allweddol y Cyngor sy'n nodi ein gweledigaeth 'Gweithio Gyda'n Gilydd am Ddyfodol Disgleiriach'. Mae'r cynllun hwn yn amlinellu cynllun gweithgarwch uchelgeisiol ar gyfer y 5 mlynedd nesaf a fydd yn ein galluogi i gyflawni ein pedwar Amcan Lles a chyfrannu at gyflawni'r saith Nod Lles cenedlaethol (fel yr amlinellir yn Neddf Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Yn unol â'r Cynllun Corfforaethol mae Cynllun Cyflawni Blynyddol sy'n cael ei gynhyrchu'n flynyddol i adlewyrchu'r camau gweithredu penodol y bydd y Cyngor yn eu cymryd yn ystod y flwyddyn i gyflawni'r ymrwymadau a amlinellir yn y Cynllun Corfforaethol. Eleni, mae'r Cynllun Cyflawni Blynyddol yn cynnwys ystod eang o flaenoriaethau y bydd meysydd gwasanaeth i gyd yn gweithio tuag atynt, a bydd rhai ohonynt yn adlewyrchu ein canolbwynt ar weithredu model gweithredu newydd fel rhan o'n hadferiad ar ôl y pandemig. Bob blwyddyn, o fewn y Gwasanaethau Cymdeithasol, mae blaenoriaethau'r Bwrdd Gwasanaeth Ail-lunio yn cyd-fynd â'n blaenoriaethau CCB i sicrhau ein bod yn cyfrannu at ymrwymadau'r Cynllun Corfforaethol a chyflawni'r Cynllun Cyflawni Blynyddol.

Rydym yn gwneud hyn yn bennaf trwy ein Cynlluniau Gwasanaeth a'r Bwrdd Ail-lunio Gwasanaethau. Yn y Gwasanaethau Cymdeithasol mae tri Chynllun Gwasanaeth sy'n adlewyrchu'r Gwasanaethau Oedolion, y Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc a Rheoli Adnoddau a Diogelu. Mae llunio Cynlluniau Gwasanaeth Blynyddol yn sicrhau bod ein blaenoriaethau yn parhau'n berthnasol i'r Cynllun Corfforaethol, yn realistig o fewn ein dulliau cyllidebol ac yn ein galluogi i gydymffurfio â'n gofynion deddfwriaethol a'n swyddogaethau Gwasanaethau Cymdeithasol statudol. Rydym yn monitro'r gwaith o gyflawni gweithgareddau drwy'r Bwrdd Ail-lunio bob chwarter ac ar ffurf adroddiadau perfformiad a gyflwynir i'n Huwch Dîm Arwain, Craffu a'r Cabinet. Mae hyn yn rhoi cyfle i drafod materion sy'n ymwneud ag adnoddau a chyllidebau yn ogystal â thynnu sylw at unrhyw faterion a heriau perfformiad sy'n dod i'r amlwg y mae angen i dimau Craffu a'r Cabinet eu hystyried.


Beth mae ein rheoleiddiwr yn ei ddweud amdanom?

Bob blwyddyn mae Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) yn gwerthuso perfformiad y Cyngor wrth gyflawni ei swyddogaethau statudol ar ffurf adolygiad perfformiad blynyddol. Yn ystod 2022-23, cwblhaodd AGC Arolygiad Gwerthuso Perfformiad o'r Gwasanaethau Cymdeithasol.

Adroddodd yr arolygiad hwn yn gadarnhaol ar y gwaith y mae'r Gyfarwyddiaeth wedi'i gwblhau i ymateb i'r Gwiriadau Sicrwydd blaenorol ac roedd yn canmol ymdrechion ein staff i gefnogi ein preswylwyr.

Mae AGC yn dal i gynnal cyfarfodydd perfformiad a 'galw i mewn' rheolaidd â'r Cyfarwyddwr a'r Penaethiaid Gwasanaeth.

Hyrwyddo'r Gymraeg a Mynediad i Wasanaethau



Mwy na geiriau ... Cyhoeddwyd Mwy na geiriau gyntaf yn 2012, gyda chynllun pum mlynedd newydd ar gyfer 2022-27. Ei weledigaeth yw bod y Gymraeg yn perthyn ac yn cael ei hymgorffori mewn gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ledled Cymru fel bod unigolion yn derbyn gofal sy'n diwallu eu hanghenion o ran iaith, gan arwain at ganlyniadau gwell, heb orfod gofyn amdano.

Dyma rai o'r pethau yr ydym wedi bod yn eu gwneud yn 2022-23 i hyrwyddo'r Gymraeg a sicrhau bod gweithwyr gofal cymdeithasol yn gwerthfawrogi'r rhan weithredol sydd ganddynt i'w chwarae wrth wireddu'r weledigaeth hon.



Y Diweddaraf am Wasanaethau Cymraeg 2022-23

Rydym wedi parhau i gynnig a hyrwyddo cyrsiau Cymraeg a sesiynau blasu i'n staff gofal cymdeithasol ac yn galluogi staff i fynd ar gyrsiau o fewn eu horiau gwaith. Mae'r rhain wedi profi i fod yn boblogaidd ac mae pobl yn dewis mynychu hyfforddiant Cymraeg pellach ar ôl eu gwneud:

Staff y Gwasanaethau Cymdeithasol yn mynychu hyfforddiant Cymraeg

Cwrs	Nifer yr aelodau staff
Mynediad	11
Sylfaen	2

Uwch	1
------	---

Mae Dysgu Cymraeg / Learn Welsh yn dudalen wybodaeth benodol ar gyfer staff sydd wedi'i hanelu at ddysgwyr Cymraeg a darpar ddysgwyr.

Eleni, cyflwynodd Tîm Gwybodaeth Busnes a Datblygu Gwasanaethau y Gwasanaethau Cymdeithasol ddigwyddiad wythnosol dros teams (Coffi a Chlonc) i roi cyfle i staff ymarfer eu Cymraeg gyda dysgwyr eraill a siaradwyr rhugl ar draws sawl Tîm.

Mae dewis iaith cwsmeriaid yn cael ei gipio ar y pwynt cyswllt cyntaf gyda gwasanaethau. Mae'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn rhoi 'Cynnig Gweithredol' sydd yn syml yn golygu darparu gwasanaeth yn Gymraeg heb i rywun orfod gofyn amdano. Allan o 832 o asesiadau'r Gwasanaethau Cymdeithasol a gwblhawyd yn ystod 2022-23, roedd gan 619 o ddefnyddwyr gwasanaeth a gofaluwr di-dâl dystiolaeth o'r cynnig gweithredol yn cael ei wneud. O'r 619 lle gwnaed y cynnig gweithredol, derbyniwyd 0.

Mae gennym nifer o staff mewn gofal cymdeithasol sy'n siaradwyr Cymraeg rhugl, sy'n gallu cwblhau ac ysgrifennu asesiad yn y Gymraeg

Gwasanaeth	Nifer y siaradwyr Cymraeg rhugl
Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc	7
Gwasanaethau Oedolion	10

Ein gwaith partneriaeth a chydweithredu

Trwy ddilyn agenda gydweithredol flaengar gyda'n partneriaid iechyd a gofal cymdeithasol, rydym wedi llwyddo i wella sut rydym yn integreiddio gwasanaethau. Ar lefel ranbarthol, rydym yn parhau'n ymrwymedig i ddatblygu mentrau fel rhan o Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol (BPRh) Caerdydd a'r Fro. Trwy'r BPRh, rydym wedi gallu gwneud y defnydd gorau posibl o arian i fuddsoddi yn y blaenoriaethau a nodwyd yng Nghynllun y BPRh.

Eleni rydym wedi cyhoeddi Adroddiad Sefydlogrwydd y Farchnad a fydd yn llywio ein dulliau comisiynu ar draws y rhanbarth.

Edrych tua'r dyfodol



Er gwaethaf yr heriau, rwy'n gobeithio bod yr adroddiad hwn wedi dangos ein bod wedi darparu'r gofal a'r cymorth gorau posibl i'n dinasyddion a'u galluogi i wella eu canlyniadau lles yn y ffyrdd sydd bwysicaf iddynt. Dim ond trwy ymroddiad a gwydnwch ein staff yr ydym wedi llwyddo i gyflawni'r llwyddiant hwn.

Rydym yn parhau i ddysgu o'n heriau ac rydym mewn sefyllfa dda i addasu'n gyflym i'r dirwedd newidiol yr ydym ynnddi. Trwy'r dysgu hwn rydym wedi gallu llunio ein gwasanaethau mewn ffyrdd newydd i sicrhau bod ein gwasanaethau'n addas ar gyfer y dyfodol.

Gan ddefnyddio digwyddiadau'r flwyddyn ddiwethaf a'n dealltwriaeth o'r ffordd ymlaen, rydym yn bwriadu symud y blaenoriaethau canlynol ymlaen i 2023-24.

Ein blaenoriaeth ar gyfer 2023/24

Safon Lles 1: Gweithio gyda phobl i ddiffinio a chydgyhyrchu canlyniadau lles y mae pobl am eu cyflawni.

1. Adolygu a gwella gwybodaeth gyfredol ar Staffnet, DEWIS a gwefan ar gyfer y cyhoedd.
2. Parhau i ganolbwyntio ar ddatblygiad SWGCC mewn perthynas â sicrhau cofnodi amserol a chymesur i lywio a gwella darpariaeth gwasanaethau.
3. Gwella ymwybyddiaeth o'r Porth Gofalwyr a'n hymateb i ofalwyr di-dâl.

Safon Lles 2: Gweithio gyda phobl/partneriaid i ddiogelu a hyrwyddo iechyd corfforol a meddyliol pobl a'u lles emosiynol.

4. Datblygu a gweithredu cynigion ar gyfer ein model gweithredu newydd sy'n cynnwys rhesymoli ein defnydd o swyddfa ffisegol.
5. Gweithio ar y cyd â'n partneriaid yn y Trydydd Sector i wneud y defnydd gorau o ddarpariaeth breswyl plant ar draws y Fro a datblygu hyn ymhellach i sicrhau digon o leoliadau a chyflawni arbedion ariannol.

Safon Lles 3: Diogelu pobl rhag cam-drin, esgeulusdod a niwed

6. Parhau i oruchwylio ein hatgyfeirio wrth y drws blaen er mwyn sicrhau ein bod yn ymateb yn effeithiol i reoli'r galw.
7. Gweithredu model cynaliadwy ac integredig ar gyfer un pwynt mynediad i wasanaethau Materion Lles (trwy'r Ganolfan Gyswllt).

Safon Lles 4: Annog a chefnogi pobl i ddysgu, datblygu a chymryd rhan mewn cymdeithas

8. Datblygu Bwrdd Cyfleoedd Dydd i adolygu a llunio ein model cyflawni yn y dyfodol mewn partneriaeth â'n haelodau.
9. Ymestyn cyflwyno gofal cartref mewn perthynas ag Anabledd Dysgu ac iechyd meddwl yn unol â'r rhaglen 'Eich Dewis'.
10. Ehangu datblygiad tai clyfar ac adolygu eu canlyniadau o ran effaith i ddinasyddion wrth gefnogi byw'n annibynnol a gwella eu lles.

Safon Lles 5: Cefnogi pobl i ddatblygu a chynnal perthnasoedd domestig, teuluol a phersonol iach yn ddiogel

11. Datblygu cynlluniau 'Tyfu ein Gweithwyr Cymdeithasol ein hunain' ymhellach a chefnogi recriwtio, cadw a chynllunio olyniaeth ar gyfer ein rolau sy'n fwy anodd eu llenwi.
12. Gweithio gyda phartneriaid i weithredu Cynllun Gweithredu Ôl-arolwg y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid i wella canlyniadau pobl ifanc.

Safon Lles 6: Gweithio gyda phobl i wella eu lles economaidd, i gymdeithasu'n rheolaidd ac i fyw mewn llety addas.

13. Adolygu ein setiau data i asesu a gwella sut rydym yn casglu data ar ein defnyddwyr gwasanaeth sydd â nodweddion gwarchoddedig.

14. Adolygu ein trefniadau Goruchwylio staff a sicrhau eu bod yn gwbl weithredol ac o safon gyson.

Mwy o Wybodaeth a Dogfennau Allweddol

Mae'r adroddiad hwn wedi rhoi trosolwg o'r ffordd yr ydym wedi perfformio dros y flwyddyn ddiwethaf trwy amlinellu llwyddiannau a heriau allweddol yr ydym wedi'u hwynebu wrth ganolbwyntio ar wella lles y rhai sydd angen ein cymorth a'n cefnogaeth.

Mae gennym lawer o wybodaeth gefndirol sy'n sail i'r adroddiad hwn ac sy'n rhoi llawer o fanylion ychwanegol am yr hyn a wnawn a sut y gwnawn hynny.

Mae mwy o wybodaeth ar gael yn y dogfennau canlynol:

- [Cynllun Corfforaethol 2020-25 Cyngor Bro Morgannwg](#)
- [Cynlluniau Gwasanaeth](#) ar gyfer Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc, Gwasanaethau Oedolion a Rheoli Adnoddau, Diogelu a Pherfformiad.
- [Partneriaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol Integredig Caerdydd a Bro Morgannwg](#)
- [Asesiad Lles Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Bro Morgannwg 2022](#)
- [Asesiad Anghenion y Boblogaeth Caerdydd a Bro Morgannwg 2022](#)